

 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board		Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau BIPBC Dull Gweithredu Safonol (SOP) ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn Lleoliadau Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru	
Dyddiad adolygu	Rhagfyr 2018	Nifer y tudalennau	45
Awdur(on)	Sioned Rees, Catherine Ellis Sue Randles Teresa Bushell Hayley Jones Eiriann Turner Val Bamber	Teitl yr awdur(on)	Fferylllydd Awdurdod Lleol Gwynedd Technegydd Fferylliaeth Technegydd Fferylliaeth Nyrs Rheoli Meddyginiaethau Nyrs Rheoli Meddyginiaethau Nyrs Rheoli Meddyginiaethau
Adran/cyfarwyddwr cyfrifol		Rheoli Fferylliaeth a Meddyginiaethau	
Cymeradwywyd gan		Polisi Meddyginiaethau BIPBC, Gweithdrefnau ac is-grŵp PGD a Grŵp Cyffuriau a Therapiwtig BIPBC	
Dyddiad cymeradwyo		Rhagfyr 2016 / Ebrill 2020	
Dyddiad gweithredu (mynd yn fyw)		Rhagfyr 2016	
Dyddiad cwblhau'r EQIA		27 Ebrill 2016	

Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn	1. Cyd-gytundeb Cod Ymarfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Lleol ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol Mai 2016 2. Safonau arfer gorau a dulliau gweithredu safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau o ran holl leoliadau gofal oedolion Mai 2016 4. Polisi Meddyginiaethau BIPBC http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=475&pid=57485 5. RPS (2018) Arweiniad proffesiynol ar ddelio â meddyginiaethau'n ddiogel ac yn gadarn. 6. RCN/RPS (2019) Arweiniad Proffesiynol ar Roi Meddyginiaethau mewn Lleoliadau Gofal Iechyd		
Newidiadau i'r adolygiad presennol:			
Gweithredol cyntaf			
Wedi'u hadolygu'n flaenorol			
Newidiadau wedi'u gwneud ie/nage	Tynu SOP a rhoi arwahan		

Cymeradwyo/Gwrthod SOP	Llofnod cadarnhau	Dyddiad

GWYBODAETH BERCHNOGOL

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth berchnogol sy'n eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Peidiwch â chynhyrchu'r ddogfen hon i gyd neu unrhyw ran ohoni heb gael caniatâd ysgrifenedig gan BIPBC.

Mai 2020

Tudalen 1

(Dylid cadw copïau o'r ddogfen hon i leiafswm a gwirio yn erbyn y fersiwn electronig er mwyn sicrhau mai'r fersiwn wrth law yw'r fersiwn ddiweddaraf.)

Dull Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau **Cartrefi Gofal** yng Ngogledd Cymru

Mae'r Dulliau Gweithredu Safonol atodedig wedi'u llunio i gael eu mabwysiadu gan bob Cartref Gofal fel bo'n briodol i'w harfer.

Argymhellir y dylai unrhyw ddulliau gweithredu safonol a fabwysiadir gael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn neu pan fo newid mewn gweithwyr gofal perthnasol; pan fydd digwyddiad wedi codi, a phob tro y bydd deddfwriaeth neu arweiniad newydd neu ddiwygiedig.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Nghymru yn datgan "y bydd yr unigolyn cofrestredig yn gwneud trefniadau i gofnodi, diogelu, rhoi a gwaredu meddyginiaethau a ddefnyddir wrth roi gofal personol i'r Preswilydd mewn modd diogel."

		TUDALEN
	Cynnwys	1,2
1.	Helpu preswylwyr i roi meddyginiaeth drostynt eu hunain (Helpu'r Preswilydd i edrych ar ôl ei hun ac i gymryd meddyginiaeth drosto ei hun)	4,5
1a	Ffurflen asesu i'r claf roi meddyginiaeth drosto ei hun	6
2.	Archebu meddyginiaeth	9
3.	Derbyn meddyginiaeth	11
4.	Storio meddyginiaeth	13
5.	Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)	15
6.	Ocsigen	16
7.	Rhoi meddyginiaeth	17
8.	Archebion neu negeseuon ar lafar yn ymwneud â newid dos meddyginiaeth	21
9.	Cadw cofnodion meddyginiaeth mewn Cartrefi Gofal	22
10.	Gwaredu / dychwelyd meddyginiaeth	25
11.	Gwall rhoi meddyginiaeth	28
12.	Rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg	30
13.	Defnyddio meddyginiaeth oddi cartref	32
14.	Trosglwyddo Preswilydd i leoliad arall (e.e. rhyddhau o'r ysbyty neu dderbyn i'r ysbyty)	33
15.	Moddion Cartref	34
16.	Cyffuriau dan reolaeth mewn Cartref Gofal	39
17.	Meddyginiaeth ' <i>Pan fo angen</i> ' (meddyginiaeth PRN)	43

1. **Helpu preswylwyr i roi meddyginiaeth drostynt eu hunain** (Helpu'r Preswlydd i edrych ar ôl ei hun ac i gymryd meddyginiaeth drosto ei hun)

Cwmpas Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal Pobl Hŷn yn datgan bod preswylwyr yn gallu derbyn cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain os dymunant, fel rhan o fframwaith rheoli risg. Cyn belled â bod y preswlydd wedi derbyn asesiad risg a thybir ei fod yn abl, mae'n bwysig i'r cartref ei annog a'i gynorthwyo i roi'r feddyginiaeth drosto ei hun. Gall hyn helpu i gynnal annibyniaeth. Gallai fod yn arbennig o addas i'r preswylwyr hynny sy'n cael presgripsiwn am fewnanadlwyr, inswlin, elïau neu i breswylwyr newydd sy'n hyderus o ran eu meddyginiaeth i'w rhoi drostynt eu hunain.

Proses asesu rhoi meddyginiaeth drosto ei hun (gan gynnwys meddyginiaeth nad yw'n cael ei rhoi ar bresgripsiwn gan breswlydd)

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Ystyriwch p'un a oes unrhyw gyfyngiadau ar y claf yn rhoi'r feddyginiaeth drosto ei hun ac, os felly, sut y gellid goresgyn hyn. Trafodwch hyn gydag aelodau priodol o'r tîm amlddisgyblaethol. Mae'n rhaid i breswylwyr dderbyn taflen wybodaeth i gleifion yn esbonio'r cynllun cyn gofyn am gydsyniad i gymryd rhan. (Tudalen 5)	Er mwyn hybu bod modd i'r claf roi'r feddyginiaeth drosto ei hun yn llwyddiannus ac yn ddiogel ac i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu a'u labelu'n briodol i anghenion y claf
2.	Mae'n rhaid i feddyginiaeth y preswlydd gael ei storio mewn cwpwrdd dan glo yn ei ystafell ei hun. Y preswlydd sy'n dal yr allwedd i'w gwpwrdd meddyginiaeth dan glo ei hun, ac mae gan y gweithwyr gofal fynediad at allwedd hefyd.	Er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth wedi'i chadw'n ddiogel.
3.	Cynnal asesiad o allu'r preswlydd i roi meddyginiaeth drosto ei hun gan ddefnyddio'r ffurflen asesu ar Dudalen 6. Mae'n rhaid i unrhyw breswlydd y mae angen caeadau plaen arno lofnodi ymwadiad hefyd (Tudalen 5)	Er mwyn sicrhau bod y preswlydd yn gymwys i roi meddyginiaeth drosto ei hun
4.	Mae'n rhaid i'r preswlydd roi cydsyniad wedi'i lofnodi i gael ei gynnwys yn y cynllun.	
5.	Caiff y ffurflen asesu a'r cydsyniad eu ffeilio yng nghofnodion y preswylwyr.	
6.	Trafodwch y feddyginiaeth gyda'r preswlydd ac unrhyw broblemau y gallent fod yn eu cael gyda'r drefn. Cofnodwch drafodaethau yn y cynllun gofal. Addysgwch unrhyw sgiliau arbennig sydd eu hangen, er enghraifft, defnyddio mewnanadlwyr aerosol yn y ffordd gywir	Hybu ymrwymiad a chynnwys cleifion mewn ffordd wybodus yn eu gofal eu hunain, lle bo'n briodol. Sicrhau bod triniaeth yn cael ei derbyn yn unol â'r bwriad
7.	Dylai gwiriadau/ailasesiadau cydymffurfiaeth gael eu cynnal ar gyfer y preswylwyr sy'n rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain bob dydd am y tri diwrnod cyntaf, yn wythnosol o hynny allan Os bydd unrhyw anghysondeb Dylai nodyn o ddyddiad y gwiriad a llofnod o'r unigolyn sy'n cwblhau'r gwiriad gael ei wneud a dylai unrhyw faterion gael eu cofnodi. (Tudalen 8)	Gellir defnyddio MAR neu siart gyfwerth, os oes un ar gael, at y diben hwn.

8.	Dylai'r preswlydd gael ei ailasesu a'i gyfeirio at y rheolwr cartref neu'r gweithiwr gofal iechyd priodol os oes: - newidiadau i feddyginiaeth - newid mewn cyflwr clinigol - ar adeg adolygu cynllun gofal y preswlydd os bydd anawsterau'n codi - cydymffurfiaeth wael - ar gais y preswlydd Ymgysylltu â theulu neu eiriolwr y preswlydd	Er mwyn nodi anghenion dysgu ac addysgu pellach ac addasu'r cynllun gofal yn briodol
9.	Dim ond meddyginiaeth bresgripsiwn sy'n cael ei chymeradwyo i'r unigolyn ei rhoi drosto ei hun. Mae'n rhaid i feddyginiaethau a brynir 'dros y cownter' gan berthnasau/ffrindiau gael eu trafod gyda'r fferylllydd neu'r nyrs er mwyn ystyried y risg y bydd cyffuriau'n rhyngweithio.	

Nodiadau

1. Mae'n rhaid i'r Gweithiwr Gofal sy'n cynnal yr asesiad fod wedi cael hyfforddiant a bod wedi cael ei asesu fel un cymwys yn y broses asesu i roi meddyginiaeth drosto ei hun.
2. Y Darparwr Gofal sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y preswlydd yn parhau i fod yn addas dros roi meddyginiaeth drosto ei hun.
3. Mae'n rhaid i gynllun gofal a chofnod dyddiol y preswylwyr gael ei farcio'n glir i ddangos eu bod yn rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain.
4. Dylai cynnydd y preswlydd neu faterion perthnasol eraill gan gynnwys monitro gael eu cofnodi yn y cynllun gofal/nodiadau dyddiol.

Ffurflen Gydsyniad Preswylwyr

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y cynllun lle mae'r unigolyn yn rhoi meddyginiaeth drosto ei hun.

Rwyf wedi cael esboniad llawn am y cynllun rhoi meddyginiaeth a'm meddyginiaethau, ac rwyf hefyd wedi derbyn y daflen wybodaeth i gleifion a'i deall.

Rwy'n cytuno i'r canlynol:

1. Cadw fy meddyginiaethau yn y cwpwrdd dan glo yn fy ystafell.
2. Eu cadw fel y cânt eu rhagnodi gan y meddyg teulu.
3. Rhoi gwybod i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal sy'n gyfrifol am y cartref os tybiaf fod fy mod wedi gwneud camgymeriad o ran cymryd fy meddyginiaethau.
4. Rhoi gwybod i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal sy'n gyfrifol am y cartref os bydd unrhyw ymwelydd neu breswlydd arall yn ceisio cymryd fy meddyginiaethau.
5. Gadael i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal sy'n gyfrifol am y cartref gadw allwedd sbâr i'r locer.
6. Rhoi gwybod i'r uwch ofalwr/cynorthwydd gofal sy'n gyfrifol am y cartref am unrhyw feddyginiaethau.

Llofnod preswlydd Enw.....

Dyddiad.....

Rwyf wedi asesu addasrwydd y preswlydd i roi meddyginiaeth drosto ei hun ac rwyf wedi bod yn dyst i'w lofnod.

Llofnod yr uwch ofalwr/cynorthwydd gofal cyfrifol sy'n dyst.....

Enw.....Dyddiad

Cais am Gaeadau Plaen ar Feddyginiaethau (copi i'w anfon i'r Fferyllfa Gymunedol sy'n dosbarthu neu'r Meddyg Dosbarthu)

Caiff yr holl feddyginiaethau eu dosbarthu mewn cynhwysyddion gwydn i'w diogelu yn erbyn plant oni bai bod yr ymwadiad canlynol yn cael ei lofnodi gan y preswlydd.

Nid wyf am i'm meddyginiaethau gael eu dosbarthu mewn cynhwysydd gwydn i'w diogelu yn erbyn plant.

Llofnod preswlydd Dyddiad.....

Ffurflen asesu i'r claf roi meddyginiaeth drosto ei hun			
Enw'r Preswlydd:		Rhif GIG:	
Dyddiad Geni:			
	Cwestiwn	DO/NA DDO	Sylwadau
1.	A yw rhoi meddyginiaeth drosto ei hun wedi'i esbonio i'r preswlydd?		
2.	A yw cyflenwi meddyginiaeth wedi'i esbonio i'r preswlydd a'i ddeall?		
3.	A yw'r preswlydd yn gallu meddwl a barnu'n eglur ac a yw'n gyfarwydd ag amser a lleoliad? (Os "na" yw'r ateb, ni ddylid ystyried caniatáu i'r claf roi meddyginiaeth drosto ei hun)		
4.	A yw'r preswlydd yn deall y gofyniad i storio ei feddyginiaethau ac a yw'n gallu mynd at ei gwpwrdd dan glo?		
5.	A yw'r preswlydd yn gallu darllen y labeli a chyfarwyddiadau eraill ar y feddyginiaeth? A oes gan y preswlydd olwg da? Os 'na' yw'r ateb, a oes modd unioni hyn trwy ddefnyddio sbectol a/neu labeli print trwm?		
6.	A yw'r meddyginiaethau wedi cael eu dangos i'r preswlydd ynghyd ag esboniad o sut maent yn gweithio ac ym mha ffordd y dylid eu cymryd?		
7.	A yw'r preswlydd yn gallu dangos dealltwriaeth o bob meddyginiaeth? a. Enw'r paratoad b. Pwrpas y feddyginiaeth c. Dos ac amllder. ch. Pa bryd a pha mor aml i gymryd meddyginiaeth ofynnol "PRN" a'r uchafswm ddos.		
8.	A yw'r preswlydd wedi cael ei gynghori i roi gwybod i weithwyr gofal os bydd yn tybio ei fod yn cael sgîl-effaith?		
9.	A yw'r preswlydd wedi cael ei gynghori bod yn rhaid iddo roi gwybod i weithwyr gofal os bydd yn gwneud camgymeriad o ran dos?		
10.	A yw'r preswlydd wedi cael ei gynghori bod yn rhaid iddo roi gwybod i weithwyr gofal os bydd allwedd yn mynd ar goll?		
11.	A yw'r preswlydd wedi cael ei gynghori y dylai roi gwybod i weithwyr gofal am unrhyw newid i'w gyflwr clinigol?		
12.	A yw'r preswlydd yn gallu agor cynwysyddion gwydn i'w diogelu yn erbyn plant, pecynnau swigod? Os 'na' yw'r ateb, a fyddai darparu caeadau plaen yn caniatáu i'r claf roi'r feddyginiaeth drosto ei hun?		
13.	A yw'r preswlydd yn deall y protocol yn ymwneud â gwaredu meddyginiaeth ddieisiau gan gynnwys offer miniog lle bo angen?		
	Gofynion gwaredu arbennig os bydd angen		Sylwadau
14.	Tabledi allan o becynnau swigod		
15.	Caeadau potel plaen		
16.	Labeli print bras		
17.	Cymhorthion mewnanadlwyr - a oes angen asesiad o dechnegau asthma gan y nyrs/fferyllydd?		
18.	Annog nodiadau atgoffa		

Wedi asesu i'r claf roi meddyginiaeth drosto ei hun:

ENW (mewn Priflythrennau)

Llofnod:

Dyddiad asesu: Cymeradwyaeth i'r claf roi meddyginiaeth drosto ei hun le / Nage

Uwch Ofalwr â Chyfrifoldeb

ENW (mewn Priflythrennau)

Llofnod.....

Dyddiad.....

ENW'R Preswylydd (mewn Priflythyrennau)

Llofnod.....

Dyddiad.....

Dyddiad Ail-asesu:

Ail-asesu Cymeradwyaeth i Roi Meddyginiaeth Drosto ei Hun

(I'w ffeilio yn nodiadau'r preswlydd)

Enw'r Preswlydd:			Rhif GIG:
Dyddiad Geni:			
Dyddiad	Ail-asesiad wedi'i roi	Disgrifiwch unrhyw anghysondeb yn fyr a sylwadau neu weithredoedd eraill a gynigiwyd	Ail-aseswyd gan
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:
	Ie/Nage		Enw: Llofnod: Dyddiad:

2. Archebu meddyginiaeth

Cwmpas - Dylai staff fod ag amser wedi'i ddiogelu i archebu meddyginiaethau a sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu'n gywir. Dylai o leiaf ddau aelod o staff gael eu hyfforddi i archebu meddyginiaeth a sicrhau eu bod wedi'u derbyn er mwyn sicrhau cysondeb yn ymwneud â salwch a gwyliau blynyddol.

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Mae'n rhaid i'r cartref gofal gymryd camau rhagofalus bod lefelau stoc meddyginiaeth ar gyfer pob preswlydd yn cael eu cadw ar lefel briodol gan ddibynnu ar angen	Ar adeg derbyn, dylid cael cadarnhad ysgrifenedig o'r feddyginiaeth y mae'r preswlydd yn ei chymryd. E.e. slip amlroddadwy cyfredol
2.	Gwiriwch y presgripsiwn amlroddadwy yn erbyn y MAR diweddaraf er mwyn pennu'r angen dros y mis sydd i ddod.	Dylid cymryd gofal er mwyn sicrhau mai dim ond y feddyginiaeth sydd ei hangen y gofynnir amdani er mwyn osgoi pentyrru meddyginiaeth. e.e. Parasetamol
3.	Caiff meddyginiaethau eu harchebu ar gylch pedair wythnos ar ddechrau wythnos dau.	
4.	Mae modd archebu'r feddyginiaeth amlroddadwy trwy: Fy iechyd ar-lein – system archebu dros y rhyngwyd neu Gan y preswlydd neu'r aelod o staff sy'n cwblhau'r slip amlroddadwy ar y ffurflen bresgripsiwn werdd WP10 a chyflwyno'r ffurflen i'r feddygfa o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddangos bod angen cyflenwad newydd o feddyginiaeth.	
5.	Mae'n rhaid i weithwyr gofal a enwir o'r cartref gasglu'r presgripsiynau amlroddadwy o'r meddygfeydd, a gwirio pob presgripsiwn yn erbyn cofnod y Preswlydd yn y cartref er mwyn sicrhau bod eitemau'n cael eu rhestru'n gywir.	
6.	Mae'n rhaid tynnu sylw'r meddyg teulu at unrhyw anghysondeb.	
7.	Dylid rhoi manylion yn ymwneud ag i ba le y dylid anfon archebion, ym mha fformat, yr amser sydd ei angen ar bob meddygfa i brosesu'r ceisiadau a manylion perthnasol eraill.	Gall y rheolwr ddewis un fferyllfa lle mae'r cartref yn cael meddyginiaethau ar ran ei breswylwyr er mwyn sicrhau dilyniant gofal.
8.	Dylid cadw manylion am feddyginiaeth a archebir i bob preswlydd yn y cartref gofal. Gallai hyn gynnwys: Dyddiad archebu. Enw, nerth a dos. Swm. Enw'r preswlydd. Llofnod yr aelod o'r gweithwyr gofal sy'n archebu ac yn gwirio.	

9.	Yn achos ceisiadau am Gyffuriau dan Reolaeth, mae'n rhaid i gefn y presgripsiwn gael ei gwblhau gan weithwyr gofal y cartref cyn cael eu hanfon i'r Fferyllfa.	
----	--	--

Nodiadau

1. Mae'n annerbyniol dychwelyd meddyginiaethau heb eu defnyddio bob blwyddyn at y cyflenwr, os byddwch yn gofyn am gyflenwadau pellach.
2. Mae'n rhaid i weithwyr gofal gymryd camau rhagofalus bod lefelau stoc meddyginiaeth pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cadw ar lefel briodol. Dylid osgoi pentyrru symiau gormodol o feddyginiaeth a phan fydd angen, dylai'r rheolwr llinell gysylltu â meddyg teulu'r preswlydd er mwyn diwygio swm y presgripsiwn neu i ofyn am adolygiad o'r feddyginiaeth.

3. Derbynn meddyginiaeth

Cwmpas

Ar unrhyw adeg benodol, dylai'r cartref allu nodi'r feddyginiaeth sydd wedi'i rhagnodi/darparu ar gyfer pob preswlydd unigol. Ar adeg derbyn y preswlydd i'r cartref, dylid cael cadarnhad ysgrifenedig o feddyginiaeth y preswlydd gan ffynhonnell ag awdurdod h.y. meddygfa, ysbyty, perthynas.

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Dylid cofnodi'r holl feddyginiaeth sy'n dod i'r cartref o ba ffynhonnell bynnag. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth a ragnodir (rheolaidd a llym), rhyddhau o ysbytai a meddyginiaeth o gartref y preswlydd ei hun fel meddyginiaeth homeopathig, llysieuol a thros y cownter (OTC)	
2.	Ar adeg cyrraedd y cartref, dylid gwirio meddyginiaeth am fanwl-gywirdeb yn erbyn: Y cais gwreiddiol am feddyginiaeth MAR cyfredol neu siart gyfatebol y preswlydd MAR newydd neu siartiau cyfatebol am archebion misol	
3.	I dderbyn pob meddyginiaeth, mae angen y gwiriadau canlynol: Y preswlydd y caiff y feddyginiaeth ei rhagnodi (neu ei phrynu) iddo Enw, nerth, dos, ffurf, swm a dyddiad derbyn.	Caiff taflen wybodaeth i gleifion (PIL) ei rhoi gyda phob meddyginiaeth (gan gynnwys y rhai a roddir mewn systemau dosiau sy'n cael eu monitro). Mae'n rhaid i weithwyr gofal sicrhau bod y daflen hon ar gael i'r preswlydd, a bod copi cyfredol yn cael ei roi yn ffeil y PIL i'r gweithiwr gofal gyfeirio ati. Mae'n rhaid i feddyginiaethau gael eu labelu'n briodol
4.	Dylai unrhyw anghysondeb gael ei esbonio wrth y fferyllfa neu'r feddygfa sy'n dosbarthu. Os bydd gwall o ran dosbarthu'r feddyginiaeth, yna mae'n rhaid cwblhau ffurflen ddigwyddiadau http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/BCUHB%20PCSU%20Incident%20Reporting%20form%20April%202016.pdf	
5.	Os daw label yn rhydd o gynhwysydd, neu os yw'n aneglur, mae'n rhaid i weithwyr gofal gael cyngor gan y fferylllydd. Tan hynny, ni ddylid defnyddio'r cynhwysydd gwreiddiol.	Er mwyn sicrhau bod modd adnabod y feddyginiaeth, dos ac ati'n gywir.
6.	Dylid gwneud cofnod o dderbyn yr holl feddyginiaeth yn unol â pholisi'r cartref	
7.	Pan gaiff meddyginiaeth ei derbyn, mae'n rhaid rhoi sylw i unrhyw ofynion storio arbennig neu feddyginiaeth beryglus.	

Nodiadau

1. Peidiwch â newid y wybodaeth sydd wedi'i hargraffu ar y label dosbarthu ar gynhwysydd y feddyginiaeth.
2. Yn achos cynhwysyddion lluosog, mae'n rhaid i bob cynhwysydd gael eu labelu. Er enghraifft, ar feddyginiaethau sydd â chynhwysydd mewnol a blwch allanol (e.e. poteli diferion llygaid, tiwbiau hufen ac eli), dylid rhoi'r label ar yr eitem yn ogystal ar du allan y blwch. Yn achos systemau dosiau wedi'u monitro, dylai label newydd gael ei atodi i bob cyflenwad
3. Mae'n rhaid i fferyllwyr roi'r holl feddyginiaethau mewn pecynnau sydd wedi'u diogelu yn erbyn plant oni fydd cais ysgrifenedig yn cael ei anfon at y fferylllydd cymunedol neu'r meddyg dosbarthu os ydynt yn cael anhawster i agor pecynnau, neu os yw'n well ganddynt beidio â chael pecynnau sydd wedi'u diogelu yn erbyn plant
4. Mae'n rhaid i feddyginiaethau nas rhagnodir (meddyginiaethau dros y cownter, moddion ategol a moddion cartref) gael eu storio ar wahân i feddyginiaeth preswylwyr eu hunain, mewn cwpwrdd dan glo a chael eu marcio'n glir MODDION CARTREF. Os bydd angen y rhain yn rheolaidd, yna gall preswylwyr sy'n rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain gadw'r feddyginiaeth hon yn eu cwpwrdd dan glo.

Derbyn Cyffuriau dan Reolaeth

	Gweithred	Sail resymegol
1	Mae'n rhaid i dderbyn cyffuriau dan reolaeth gael eu mewnbynnu i gofrestr cyffuriau dan reolaeth ar wahân ac wedi'i rhwymo, sydd â thudalennau wedi'u rhifo	
2	Defnyddiwch dudalen ar wahân ar gyfer pob cyffur a phreswilydd.	

4. Storio Meddyginiaeth yn y Cartref Gofal

Cwmpas

Dylai'r polisi hwn ymdrin â storio'r holl feddyginiaeth yn y cartref. Dylid darparu manylion am leoliad a threfn storio, monitro tymheredd, mynediad at leoliad storio ac agweddau eraill y manylir arnynt isod.

	Gweithred	Sail resymegol
1	Mae gofyn i breswylwyr sy'n rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain gael drôr/cwpwrdd personol sy'n cloi. Dylai gweithwyr gofal gael allwedd ddyblyg.	
2	Lle bo gweithwyr gofal yn gyfrifol am ddelio â meddyginiaeth ar ran preswylwyr, mae'n rhaid bod lle dynodedig sy'n ddiogel i storio meddyginiaeth.	
3	Mae'n rhaid cynnal yr ardal storio ar dymheredd derbyniol - llai na 25°C. Dylid monitro a chofnodi hyn o ddydd i ddydd.	
4	Mae'n rhaid i'r penderfyniad yn ymwneud â pha le i storio meddyginiaeth ystyried maint y cartref, natur y feddyginiaeth, digonol i gynnwys atchwanegiadau maethol, gorchuddion, cynnyrch stoma, cyfarpar ymataliaeth ac ati.	Mae'n rhaid i'r maint fod yn ddigonol i gynnwys storio cyflenwadau newydd yn syth ar adeg eu dosbarthu, heb atal mynediad diogel at gyfleusterau.
5	Mae'n rhaid i'r holl eitemau gael eu storio heb fod ar y llawr.	
6	Os caiff cwpwrdd meddyginiaeth ei ddefnyddio - mae'n rhaid iddo fod o faint a lluniad addas gyda chlo o ansawdd.	
7	Os caiff troli meddyginiaeth ei ddefnyddio, mae'n rhaid bod modd ei gloi, ei fod o wneuthuriad addas ac o faint addas, sy'n briodol i anghenion y cartref ac yn briodol at ddiben cadw meddyginiaeth pob preswlydd ar wahân.	Mae'n rhaid i'r troli fod â chapasiti digonol er mwyn i'r holl feddyginiaeth gael ei chadw dan glo os bydd torri ar draws neu mewn achos brys yn ystod y rownd dosbarthu meddyginiaeth.
8	Os caiff troli ei ddefnyddio i storio meddyginiaeth, mae'n rhaid iddo fod o dan glo a chael ei atodi i'r wal pan nad yw'n cael ei ddefnyddio neu gael ei ddiogelu yn y lle dynodedig dan glo.	
9	Ni ddylai'r allweddi i ardal y feddyginiaeth, y cwpwrdd neu'r troi fod yn rhan o system allweddi meistr y cartref.	Mae diogelwch allweddi'n hanfodol i ddiogelwch y feddyginiaeth, felly, dylid cyfyngu ar fynediad i weithwyr gofal ag awdurdod yn unig a dylai'r aelod hwnnw ag awdurdod gadw'r allweddi yn ei feddiant.
10	Yn amodol ar gyfarwyddyd y Swyddfa Gartref, dylai storio cyffuriau dan reolaeth (CDs) lle caiff dosbarthu ei gwblhau gan weithwyr gofal fod yn unol â Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Cadw'n Ddiogel) 1973.	Os yw CDs yn unol â'r MDS, yna mae'r blwch cyfan yn amodol ar Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Cadw'n Ddiogel). (Gweler yr arweiniad yn ddiweddarach ar storio cyffuriau dan reolaeth).
11	Yn achos sylweddau/meddyginiaethau peryglus, dylai asesiad Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) gael ei gynnal o ran meddyginiaeth y mae'n rhaid ei 'thrin â llaw'. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys paratoadau allanol fel steroidau, meddyginiaeth gytotocsig fel	

	methotrecat a hydrocsywrea. (Gweler Adran 5 COSHH).	
--	---	--

Storio meddyginiaeth y mae angen ei chadw yn yr oergell

	Gweithred	Sail resymegol
1	Yn achos meddyginiaeth y mae angen ei chadw yn yr oergell, dylai oergell ddiogel, pwrpasol ac ar wahân fod ar gael yn y cartref i gael ei defnyddio'n unswydd i gadw meddyginiaeth y mae angen ei storio mewn man oer.	Yn achos eitemau presgripsiwn llym (untro), y gallai fod angen eu cadw yn yr oergell, gallai silff bwrpasol yn oergell y cartref fod yn briodol - ar yr amod bod diogelwch digonol i atal unrhyw un heb awdurdod rhag cael gafael ar y feddyginiaeth e.e blwch dan glo wedi'i roi yn yr oergell.
2	Dylid monitro tymheredd yr oergell meddyginiaeth bob dydd pan fydd yn cael ei defnyddio, gan ddefnyddio thermomedr uchafswm/isafswm a'i gofnodi (dylid cofnodi'r tymheredd uchafswm, lleiafswm a gwirioneddol). Dylai gweithwyr gofal feddu ar ddealltwriaeth glir am ba gamau i'w cymryd os bydd y tymheredd y tu hwnt i'r amrediad arferol.	Mae'r amrediad arferol fel arfer rhwng 2°C a 8°C, ond dylid gwirio taflen wybodaeth y cynnyrch am gadarnhad. Gellir cysylltu â'r fferyllfa gymunedol am gadarnhad hefyd
3	Dylai'r oergell gael ei glanhau a'i dadrewi'n rheolaidd. Dylid cadw cofnod o'r dadrewi hefyd.	Mae BIPBC yn argymhell gwneud hyn unwaith y mis
4	Rhaid cymryd gofal nad yw'r gwres sy'n cael ei greu gan yr oergell yn effeithio ar dymheredd yr ystafell, os caiff meddyginiaeth arall ei storio gerllaw neu yn yr un ystafell.	

Nodiadau:

1. Mae'n rhaid bod gan ardaloedd paratoi unrhyw feddyginiaeth arwynebau solet, y mae modd eu golchi. Ni ddylai fod unrhyw fannau lle mae llwch yn ymgasglu.
2. Dylai fod digon o le yn y weithfan ynghyd â goleuo digonol i hwyluso rhoi meddyginiaeth.
3. Dylai cyfleusterau golchi dwylo fod yn yr un ystafell neu yn yr un man lle caiff y feddyginiaeth ei storio.

Storio Cyffuriau wedi'u Rheoli

Mae'n rhaid i gyffuriau wedi'u rheoli i'r preswylwyr hynny nad ydynt yn rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain gael eu storio mewn cypyrddau sy'n bodloni gofynion Rheoliad Camddefnyddio Cyffuriau (Cadw'n Ddiogel) 1973. Mae hyn yn sôn am benodol am:

Adeiladu
Dull gosod
Clo ac allwedd i'r cwpwrdd

Pan fydd preswlydd yn rhoi ei feddyginiaeth drosto ei hun, gall gadw ei gyflenwad ei hun o gyffuriau dan reolaeth a ddosberthir yn unigol yn ei gwpwrdd dan glo personol.

5. Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)

Cwmpas

Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â'r holl feddyginiaeth a allai fod yn niweidiol i iechyd. Er bod yr holl feddyginiaethau wedi'u heithrio'n gyffredinol rhag rheoliadau COSHH, gallai rhai mathau o feddyginiaeth os cânt eu cyffwrdd neu eu llyncu'n ddamweiniol fod yn beryglus i iechyd.

Mae rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl gyflogwyr ystyried sylweddau a allai fod yn beryglus i iechyd yn y gweithle. Mae'n rhaid i unrhyw beryglon a nodir gael eu hasesu ac mae'n rhaid i gamau gael eu cymryd er mwyn lleihau'r risg.

Y **perygl** a gyflwynir gan sylwedd yw ei botensial i beri niwed, ond y **risg** gysylltiedig yw'r tebygolrwydd y bydd yn peri niwed o ran y ffordd y caiff ei ddefnyddio.

Bydd y Cartref Gofal yn dilyn y cyngor a gynigir gan y Fferyllydd Cymunedol neu'r Meddyg Dosbarthu pan gaiff meddyginiaeth ei rhoi i'r cartref yn unol â'r weithdrefn hon.

Mae'n rhaid i'r Fferyllydd Cymunedol neu'r Meddyg Dosbarthu sy'n cyflenwi'r feddyginiaeth i'r Cartref Gofal wneud y canlynol:

1. **Nodi** unrhyw sylweddau/meddyginiaeth beryglus a roddir ar bresgripsiwn i'r Cartref Gofal cyn cyflenwi'r Cartref.
2. **Asesu'r** risg i iechyd o ran y ffordd y caiff sylwedd ei ddefnyddio yn y Cartref Gofal a phenderfynu pa ragofalon sydd eu hangen.
3. Cyngori ar fesurau priodol i **reoli'r** risg i iechyd a lleihau risgiau gweithwyr rhag dod i gysylltiad â'r sylweddau hynny.
4. Hysbysu, cyfarwyddo a hyfforddi gweithwyr am y risgiau a'r rhagofalon i'w cymryd
5. Cyngori ar y mesurau rheoli i'w defnyddio, a bod unrhyw offer a ddarperir at y diben hwn yn cael ei gynnal yn briodol a bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn.
6. Cyngori'r Cartref Gofal ynghylch y weithdrefn i'w dilyn yn achos llyncu damweiniol neu ddamweiniau.

Mae meddyginiaeth sydd wedi'i nodi fel perygl posibl i iechyd yn cynnwys:

Eli steroid e.e. Clobetasol, (Dermovate)

Eli cytotoxic e.e. Fluorouracil, (Efudix)

Meddyginiaethau cytotoxic e.e. Methotrexate

Ocsigen (**Gweler isod**)

Steroidau Anabolig e.e. Finasteride, (Proscar).

Cynhyrchion croen wedi'u gwneud â Pharaffin ar Orchuddion a Dillad (Gweler atodiad 9)

Dylai'r sawl sy'n dosbarthu dynnu sylw at unrhyw feddyginiaeth sy'n berthnasol i'r weithdrefn hon wrth gyflenwi ym mhob achos. Os caiff meddyginiaeth newydd ei chyflenwi, yna bydd y sawl sy'n dosbarthu'n rhoi'r cyngor priodol ac yn sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal.

Pan fydd y Cartref Gofal yn derbyn cyngor a/neu hyfforddiant gan y dosbarthwr cyflenwi ar unrhyw feddyginiaeth o dan y weithdrefn hon, mae'n rhaid i'r cartref gydymffurfio ag unrhyw gyngor a roddir. Cyfrifoldeb y cartref yw sicrhau bod yr holl weithwyr gofal yn ymwybodol o'r asesiad risg a pha ragofalon y dylent eu cymryd wrth ddelio â'r feddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr ddarparu unrhyw ddeunyddiau, offer, gwybodaeth ysgrifenedig gofynnol er mwyn cydymffurfio â'r cyngor.

Dilynwch y ddolen am arweiniad ar gyffuriau cytotoxicig: www.hse.gov.uk/pubns/misc615.pdf

Mai 2020

Tudalen 15

6 Ocsigen

Caiff ocsigen ei roi ar bresgripsiwn dim ond ar ôl asesiad arbenigol gyda'r tîm arbenigol asesu ocsigen, yn dilyn cyfeiriad gan glinigwr e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol, clinig y frest ac ati.

Caiff yr ocsigen ei ddarparu gan gwmni ocsigen, a fydd yn dosbarthu'r holl gynhyrchion sydd eu hangen ac yn eu gosod. Dylid archebu ocsigen yn uniongyrchol o gwmni cyflenwi ocsigen (fel y trafodwyd gyda'r Practis Meddyg Teulu) trwy'r Ffurflen Archebu Ocsigen i'r Cartref (HOOF). Bydd archebion rheolaidd yn cymryd hyd at dri diwrnod, bydd archebion brys ar gael o fewn pedair awr

Bydd y cwmni cyflenwi ocsigen yn penderfynu ar y system cyflenwi ocsigen mwyaf priodol i'r preswlydd yn y Cartref Gofal ar ôl cynnal asesiad risg. Y Cyflenwr sy'n gyfrifol am gynnig system cyflenwi ocsigen sy'n diwallu anghenion clinigol y claf fel y'i nodir ar y ffurflen archebu gan y clinigwr. Cyfrifoldeb y cyflenwr hefyd yw sicrhau bod modd i gyflenwi ocsigen gael ei osod a'i ddefnyddio gan y Preswlydd mewn modd diogel.

Ni ddylai HOOF nodi dull cyflenwi neu eitem offer ocsigen penodol fel arfer, ond efallai y bydd y clinigwr yn nodi gofyniad ar gyfer dyfais gadwraethol, caniwlaŵ i'r trwyn neu fasg penodol, neu leithydd.

Mae ocsigen yn berygl tân:

1. Ni ddylech ganiatáu i neb ysmygu pan fydd ocsigen yn cael ei ddefnyddio.
2. Dylech gadw ocsigen o leiaf chwe throedfedd i ffwrdd o wres neu fflamau gan gynnwys gwresogyddion a phoptai.
3. Ni ddylech fyth defnyddio hylifau fflamadwy fel teneuwr paent, hylifau glanhau neu erosolau tra byddwch yn defnyddio ocsigen.
4. Sicrhewch fod diffoddwr tân o fewn cyrraedd.
5. Gosodwch larymau tân a chanfodyddion mwg a sicrhewch eu bod yn gweithio.
6. Ni ddylech fyth adael i ocsigen lifo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.
7. Ni ddylech fyth adael i offer ocsigen fynd yn agos at lenni, neu ei orchuddio gyda dillad.
8. Ni ddylech fyth roi'r caniwla neu'r masg ar y gwely neu'r gadair tra bydd yr ocsigen yn dal i lifo.
9. Sicrhewch fod drysau mewnol ar agor er mwyn helpu i awyru'r ystafell a sicrhau nad yw nwy'n cronni.

www.nhs.uk/conditions/home-oxygen

7. Rhoi meddyginiaeth

Cwmpas

Mae'r Adran hon yn ymdrin â'r holl feddyginiaeth a roddir yn y Cartref Gofal
Dim ond aelodau o staff dynodedig sydd wedi hyfforddi ac sy'n gymwys sy'n gallu rhoi meddyginiaeth.
Ein hamcan yw rhoi meddyginiaethau mewn cartref gofal mewn modd diogel, gyda thrywydd archwilio cyflawn

Rheolwr y Cartref Gofal ac aelodau dynodedig o staff sydd wedi hyfforddi ac sy'n gymwys sy'n gyfrifol am roi'r ocsigen mewn modd diogel. Mae'n rhaid rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr a dilyn gwybodaeth y gwneuthurwr. Ni ddylid ei rhoi at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw breswlydd arall.

Dylai Rheolwr y Cartref Gofal sicrhau bod hanes cyfredol am feddyginiaeth yn cael ei sicrhau a'i gofnodi ar gyfer pob preswlydd newydd. Mae'n rhaid i hyn gael ei nodi'n glir yn y cynllun gofal neu fel bo'n berthnasol.

Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau'n nodi amseroedd penodol o'r dydd pan gaiff y 'rownd' feddyginiaeth ei chwblhau ac efallai y bydd hyn yn dilyn patrwm amseroedd bwyta. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried amser rhoi'r feddyginiaeth yn ofalus ac ymateb i anghenion preswylwyr unigol e.e. pan fydd angen meddyginiaeth cyn cael bwyd.

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Ar unrhyw adeg benodol, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal allu nodi'r feddyginiaeth a ragnodir i bob preswlydd.	Er mwyn lleihau niwed i'r preswlydd
2.	Mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal allu adnabod y preswlydd y dylai roi'r feddyginiaeth bresgripsiwn iddo hefyd.	Gwiriwch pwy yw'r preswlydd e.e. llun diweddar. Gwiriwch enw a dyddiad geni'r preswlydd.
3.	Gellir rhoi'r feddyginiaeth mewn nifer o ffyrdd, e.e. unigolion sy'n mynd i ystafell glinigol / feddyginiaeth yn eu tro, loceri unigol yn ystafell y preswlydd neu ar ffurf troli sy'n cael ei gludo o amgylch y cartref.	
4.	Golchwch eich dwylo gyda sebon bacterleiddiol a dŵr neu gel alcohol bacterleiddiol cyn rhoi meddyginiaeth i glaf ac ar ôl hynny a sicrhau bod y man gwaith yn lân	Er mwyn lleihau'r risg o drawsheintio
5.	Mae'n rhaid cael cydsyniad cyn rhoi'r feddyginiaeth	Er mwyn sicrhau bod y preswlydd yn deall y weithred ac yn rhoi ei gydsyniad dilys
6.	Gwiriwch statws alergedd y preswlydd trwy ofyn iddo a gwirio'r cynllun gofal	Er mwyn atal unrhyw wallau sy'n gysylltiedig ag alergeddau tuag at gyffuriau
7.	Sicrhewch fod y MAR neu siart gyfatebol gennych cyn dechrau rhoi meddyginiaeth. Gwiriwch fod y wybodaeth a geir ar y MAR neu siart gyfatebol yn gyflawn, yn gywir ac yn ddarllenadwy.	Er mwyn diogelu'r preswlydd
8.	Dewiswch y feddyginiaeth ofynnol trwy wirio'r canlynol yn erbyn y MAR neu'r siart gyfatebol: Enw a dos cywir y feddyginiaeth Gwiriwch y dyddiad dod i ben Dyddiad ac amser cywir wrth roi'r feddyginiaeth Y dull rhoi cywir Nid yw'r feddyginiaeth eisoes wedi'i rhoi Sylwch ar unrhyw newidiadau diweddar o ran therapi. Os bydd unrhyw ddarn o'r wybodaeth ar goll, yn aneglur neu'n annarllenadwy, yna ni ddylai'r gweithiwr gofal	Er mwyn sicrhau bod y cyffur cywir y cael ei roi i'r preswlydd cywir, yn y ddos a ragnodwyd, trwy'r dull cywir ac er mwyn atal unrhyw wallau rhag codi Mae triniaeth gyda meddyginiaeth sydd y tu hwnt i'r dyddiad dod i ben

	barhau i roi'r feddyginiaeth a dylai siarad â meddyg teulu neu fferyllydd y preswylydd.	yn beryglus. Mae meddyginiaethau'n dirywio o'u storio. Mae'r dyddiad dod i ben yn nodi pan na fydd meddyginiaeth benodol yn effeithiol mwyach.
9.	Gwagiwch y ddos ofynnol i gynhwysydd meddyginiaeth (pot) Dylid rhoi meddyginiaeth i'r preswylydd yn uniongyrchol o'r cynhwysydd a ddarparwyd, gan ddefnyddio techneg ddiglyffwrdd Ni ddylid byth gadael meddyginiaeth allan i'w chymryd yn ddiweddarach Ni ddylid tynnu meddyginiaeth byth o'r cynhwysydd gwreiddiol y gwnaeth fferyllydd neu feddyg dosbarthu ei roi hyd nes daw hi'n adeg rhoi meddyginiaeth	Er mwyn lleihau'r risg o drawsheintio Er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r gweithiwr gofal.
10.	Dylid mesur meddyginiaeth hylifol a'i rhoi gan ddefnyddio offer priodol. Os yw chwistrell eneuol yn cael ei defnyddio i roi'r feddyginiaeth, mae'n rhaid cael cydsyniad.	
11.	Rhowch gymorth i'r preswylydd i'w gael mewn safle cyfforddus sy'n briodol i roi'r feddyginiaeth ac sy'n parchu urddas y preswylydd.	
12.	Rhowch y feddyginiaeth fel y'i rhagnodir	Bodloni gofynion cyfreithiol a pholisi lleol
13.	Cynigiwch wydraid o ddŵr (yn achos meddyginiaeth i'w chymryd trwy'r geg), os caniateir hynny, gan gynorthwyo'r Preswylydd lle bo angen	
14.	Arhoswch gyda'r preswylydd hyd nes i broses roi'r feddyginiaeth gael ei chwblhau.	Er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i chymryd ar amser
15.	Dylai'r broses o roi meddyginiaeth gael ei chofnodi ar unwaith. Cofnodwch y ddos a roddwyd a llofnodwch y MAR neu'r siart gyfatebol a'r cynllun gofal yn unol ag Adran 6	Bodloni gofynion cyfreithiol a pholisi lleol
16.	Os caiff meddyginiaeth ei gwrthod, dylai'r gweithiwr gofal gofnodi'r rheswm dros beidio â rhoi'r feddyginiaeth ar gefn y MAR neu'r siart gyfatebol ac yn y cynllun gofal. Os bydd y preswylydd yn gwrthod cymryd meddyginiaeth am ddeuddydd (48 awr) neu fwy - mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal roi gwybod i Feddyg y preswylydd er mwyn trefnu adolygiad o'r feddyginiaeth Mae'n rhaid cael gwared ar unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei gwrthod neu ei gollwng yn unol ag Adran 10 - Gwaredu / Dychwelyd Meddyginiaeth.	
17.	Mae'n rhaid i feddyginiaeth 'Pan fo angen' (PRN) fod â chyfarwyddiadau digonol gan gynnwys am ddefnyddio'r feddyginiaeth yn briodol e.e. trin pa symptomau a'r ddos a'r amllder uchaf bob dydd. Dylai'r manylion hyn fod yn y cynllun gofal hefyd e.e. rhwng un neu ddau dabled rhwng pob pedair a chwe awr i leddfu poen yn y glin. Dim mwy nag wyth tabled mewn cyfnod o 24 awr. Gweler Atodiad 3 am ragor o wybodaeth.	

Nodiadau

1. Dylai meddyginiaeth gael ei rhoi yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr; nid oes modd ei rhoi at yr un diben arall nac i unrhyw breswlydd arall. Mae hyn hefyd yn cynnwys meddyginiaeth nad yw i'w chymryd trwy'r geg, elïau ac ychwanegion maethol. Mae'n rhaid cynnal asesiad risg o feddyginiaeth nad yw'n cael ei rhoi ar bresgripsiwn.
2. Dylai rhoi'r feddyginiaeth ymateb i anghenion y preswlydd a chaniatáu ar gyfer darpariaethau arbennig fel pan fo angen meddyginiaeth cyn cael bwyd neu feddyginiaeth gyda chyfundrenau dosiau penodol.
3. Ni ddylai meddyginiaeth gael ei rhoi mewn pot na chael ei throsglwyddo **byth** i weithiwr gofal arall i'w rhoi i'r preswlydd ar amser neu ddyddiad diweddarach.
4. Dylai MAR neu siartiau cyfatebol gael eu hargraffu ar gyfrifiadur y sawl sy'n dosbarthu ac **ni** ddylent gael eu hysgrifennu â llaw. Gellir ysgrifennu unrhyw newidiadau meddyginiaeth â llaw hanner ffordd trwy'r mis ar y MAR neu'r siart gyfatebol yn llawn yn union yr un ffordd ag y maent wedi'u hysgrifennu ar y label dosbarthu, oni bai bod MAR neu siart gyfatebol newydd ar gael. Os oes modd, dylai'r cofnod hwn a ysgrifennwyd â llaw gael ei wirio a'i gydlofnodi gan ail aelod o staff. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r gweithiwr gofal nesaf i roi meddyginiaeth edrych i weld p'un a yw'r cofnod wedi'i gwblhau'n gywir a'i gydlofnodi.
5. Lle caiff meddyginiaeth ei rhoi trwy systemau dosio wedi'u monitro (MDS) sy'n cynnwys mwy nag un math o feddyginiaeth, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r feddyginiaeth allu gwahaniaethu rhwng pob meddyginiaeth unigol ac fel arfer gorau esbonio pob tabled i'r unigolyn, a bod yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau penodol, e.e. cyn cael bwyd. **Nid** argymhellir y math hwn o systemau MDS gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
6. *Mae rhagofalon arbennig yn berthnasol i gyffuriau wedi'u rheoli, elïau, cyffuriau i'w cymryd unwaith yr wythnos a meddyginiaethau y mae asesiadau risg uchel a COSHH yn berthnasol iddynt (gweler Adran 7a i gael arweiniad ar roi cyffuriau wedi'u rheoli mewn Cartrefi Gofal Preswyl)*
7. Mae'n rhaid i hyfforddiant ac asesu cymhwyster o ran meddyginiaethau a roddir gan weithwyr gofal gynnwys y canlynol:
 - Sut i gael cydsyniad.
 - Sut i gadarnhau pwy yw'r preswlydd e.e. llun diweddar.
 - Sut i gadarnhau'r enw, ffurf, nerth a dos y feddyginiaeth a sut gall gweithwyr gofal adnabod pob meddyginiaeth pan gaiff un math o feddyginiaeth trwy System Dosio wedi'u Monitro (MDS) ei defnyddio.
 - Sut i groeswrio bod y MAR neu'r siart gyfatebol a'r feddyginiaeth yn cyd-fynd
 - Sut i wirio p'un a oedd unrhyw newidiadau yn ddiweddar i therapi.
 - Sut i wirio nad yw'r ddos eisoes wedi'i rhoi
 - Sut i wirio **dull** rhoi'r feddyginiaeth, neu p'un a oes unrhyw ofynion rhoi arbennig.
 - Sut mae'r Gweithiwr Gofal sy'n rhoi'r feddyginiaeth yn cofnodi dos amrywiol.
 - Sut i wneud cyfarwyddiadau dos aneglur fel 'yn unol â chyfarwyddyd' yn glir.
 - Sut i ddelio â gwallau rhoi meddyginiaeth.

7a. Rhoi cyffuriau wedi'u rheoli

Dylai'r broses o roi cyffuriau wedi'u rheoli gael ei chwblhau gan ddau aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi ac sydd wedi cymhwyso i gwblhau proses gyfan rhoi meddyginiaeth. Yn ddelfrydol, dylai fod dau lofnod ar y MAR neu'r siart gyfatebol yn cofnodi'r broses o roi'r feddyginiaeth.

1.	Mae'n rhaid i amser rhoi pob cyffur gael ei nodi a'i dystio ar y gofrestr Cyffuriau wedi'u Rheoli, yn ogystal ag ar y MAR neu'r siart gyfatebol.	
2.	Mae'n rhaid i'r gofrestr nodi'r balans sy'n weddill am bob cynnyrch ar wahân yn achos pob preswlydd.	
3.	Mae'n rhaid gwirio balans cyffuriau bob tro y byddwch yn eu rhoi a hefyd yn rheolaidd. Mae hyn ar ddisgresiwn y nyrs neu'r rheolwr â chyfrifoldeb. Dylai amllder y gwiriad balans ddigwydd yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol gan ddibynnu ar ddefnydd.	Mae'n rhaid i'r gofrestr gael ei harchifo a'i chadw am ddwy flynedd

8. Gorchmynion neu negeseuon ar lafar yn ymwneud â newidiadau i feddyginiaeth neu ddosiau

Cwmpas

Dim ond aelodau dynodedig o staff sydd wedi hyfforddi a chymhwyso sy'n gallu derbyn gorchmynion neu negeseuon ar lafar yn ymwneud â newid meddyginiaeth neu ddosiau

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall gweithwyr gofal dderbyn cyfarwyddiadau ar lafar am unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â defnydd o feddyginiaethau gan y meddyg teulu, y fferyllydd neu ragnodwr anfeddygol. Nid yw cyfarwyddiadau ar lafar gan neb arall yn dderbyniol. Mae'n rhaid i'r newidiadau gael eu cadarnhau trwy neges destun neu gael eu hanfon trwy ffacs neu neges e-bost cyn gynted â phosibl lle bo modd.	
2.	Wrth wneud nodyn o'r neges, rhaid ei hailadrodd er mwyn sicrhau ei bod yn gywir.	Er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n gywir.
3.	Mae'n rhaid i'r holl negeseuon gan y rhagnodwr yn ymwneud â meddyginiaethau gael eu hysgrifennu ar gynllun gofal y preswlydd a'r dyddiadur dyddiol. Mae'n rhaid i newidiadau i feddyginiaeth gael eu hysgrifennu ar y MAR neu'r siart gyfatebol, ynghyd â dyddiad, amser ac enw'r Gweithiwr Iechyd Proffesiynol sy'n awdurdodi. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen ei llofnodi ac ysgrifennu ei enw arni mewn llythrennau bras a dylai unigolyn arall wirio newid y feddyginiaeth.	Er mwyn sicrhau dilyniant gofal a gwybodaeth
4.	Dylai'r Rheolwr Cofrestredig ymgynghori â'r meddyg teulu ynghylch unrhyw newidiadau a fydd yn effeithio ar ofal y defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys adolygu'r cynllun gofal os bydd angen.	
5.	Os bydd y rhagnodwr yn bresennol yn y Cartref Gofal, mae'n rhaid i'r rhagnodwr ddiwygio'r MAR neu'r siart gyfatebol ar adeg yr ymweliad	

9. Cadw cofnodion meddyginiaeth mewn Cartrefi Gofal

Cwmpas - Mae gofyniad statudol i gofnodi'r holl feddyginiaeth mewn cartrefi gofal gan gynnwys archebu meddyginiaeth, y dderbynneg, y broses o'i rhoi i gleifion ac eraill.

Bydd gan berchennog / rheolwr y cartref gofal gyfrifoldeb cyffredinol dros gadw cofnodion yn ymwneud â meddyginiaeth mewn cartrefi gofal.

Mae gofyniad statudol i gofnodi'r holl feddyginiaeth mewn cartrefi gofal, fel y manylir arno yn Rheoliadau Cartrefi Gofal perthnasol e.e. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal Pobl Hŷn (2004) Atodlen 3, Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru)

Dylai safon y cofnodion sicrhau bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n briodol, eu bod yn ddarllenadwy ac yn gyfredol, gan gynnig trywydd archwilio cyflawn o ran meddyginiaeth.

Cofnodion rhoi meddyginiaeth amlroddadwy		
	Gweithred	Sail resymegol
1	Dylai unrhyw feddyginiaeth a roddir ac unrhyw ddosiau a wrthodir gael eu gofnodi ar unwaith ar y MAR neu'r siart gyfatebol.	Dylai cofnodion gael eu cadw am o leiaf saith mlynedd gyda Gwasanaethau Oedolion.
2	Caiff cofnodion eu cwblhau'n briodol gydag inc annileadwy, byddant yn ddarllenadwy ac yn gyfredol gan gynnig trywydd archwilio cyflawn o ran yr holl feddyginiaeth ac enwau'r holl weithwyr gofal sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i gywiriadau neu ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud i'r MAR neu'r siartiau cyfatebol fod yn eglur. Mae'n dderbyniol tynnu llinell trwy'r cofnod anghywir a'i ail-ysgrifennu. Ni ellir cuddio'r cofnod gwreiddiol e.e. trwy ddefnyddio hylif cywiro.	
3	Pan fo dewis o ran dosiau e.e. 1-2 tabled, mae'n rhaid gofnodi nifer y tabledi sy'n cael eu rhoi mewn gwirionedd.	
4	Os nad oes modd osgoi ysgrifennu'r MAR neu'r siart gyfatebol â llaw, dylai'r gweithiwr gofal sy'n nodi'r wybodaeth lofnodi'r MAR neu'r siart gyfatebol, a dylai'r gweithiwr gofal nesaf sy'n rhoi'r feddyginiaeth sicrhau bod y cofnod wedi'i gwblhau'n gywir a'i gydlofnodi.	

Nodiadau

- Y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) neu'r siart gyfatebol yw'r ddogfen dreigl y dylid ei defnyddio i gofnodi'r holl feddyginiaeth gan gynnwys meddyginiaeth nad yw ar bresgripsiwn, ychwanegion maethol, elïau ac ati.
- Y Cartref Gofal fydd yn pennu arddull neu ddull y MAR neu'r siart gyfatebol, ond mae'n bosibl y bydd y fferylllydd sy'n cyflenwi neu'r meddyg sy'n dosbarthu ar gael i roi cymorth.
- Dylai'r holl gofnodion MAR neu siartiau cyfatebol newydd gael eu cyfeirio'n ôl at yr archeb ddiweddaraf am y feddyginiaeth amlroddadwy a'r MAR blaenorol neu'r siart gyfatebol
- Dylai cartrefi gofal sy'n dewis cadw cofnodion cleifion ar gyfrifiadur gael cyngor ar Ddeddf Diogelu Data 1998.
- Dylai cofnodion gynnwys moddion cartref, meddyginiaeth ar adeg derbyn y preswlydd i'r cartref, meddyginiaeth a roddwyd ar adeg rhyddhau claf o'r ysbyty neu ymweliad fel claf allanol.

Mae cofnodion i'w gwneud yn cynnwys:

	Gweithred	Manylion
1	Meddyginiaeth archebwyd Gweler Adran 2	Dylai Rheolwr y Cartref Gofal sicrhau bod hanes cyfredol am feddyginiaeth yn cael ei sicrhau a'i gofnodi ar gyfer pob preswlydd newydd. Mae'n rhaid i hyn gael ei nodi'n glir yn y cynllun gofal neu fel bo'n berthnasol.
2	Meddyginiaeth dderbyniwyd Gweler Adran 3	Dylai'r holl feddyginiaeth sy'n dod i mewn i gartref gofal gael ei gofnodi gyda: Dyddiad derbyn. Enw, cryfder a dos. Swm. Enw'r preswlydd. Llofnod yr aelod o weithwyr gofal sy'n gwirio ac yn cofnodi. Ar unrhyw adeg benodol, mae'n rhaid i'r cartref allu nodi'r feddyginiaeth a ragnodir i bob preswlydd unigol. Ar adeg derbyn, dylid cael cadarnhad ysgrifenedig o'r feddyginiaeth y mae'r preswlydd yn ei chymryd. E.e. slip amlroddadwy cyfredol.
3	Meddyginiaeth a roddwyd (ac unrhyw ddosiau a wrthodwyd) Gweler Adran 6	<i>Preswlydd yn rhoi meddyginiaeth drosto ei hun (Rhoi Annibynnol)</i> Dylid cynnal cofnod o'r feddyginiaeth a roddir i Breswlydd sy'n rhoi meddyginiaeth drosto ei hun, gan gynnwys dyddiad a llofnod y gweithiwr gofal cyfrifol. Dylid cadw cofnod o'r Archeb a'r Dderbynneg pan fo'r cartref yn gysylltiedig â chael y feddyginiaeth. <i>Gweinyddiaeth gan Weithwyr Gofal</i> Y MAR neu'r siart gyfatebol yw'r ddogfen dreigl y dylid ei defnyddio i gofnodi'r holl weinyddiaeth yn ymwneud â meddyginiaeth.
4	Cyffuriau wedi'u Rheoli Gweler isod ac Adran 8	
5	Meddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio y tu allan i'r cartref gofal Gweler Adran 11	Caiff nodiadau priodol eu gwneud yng nghofnodion y cartref i nodi absenoldeb y preswlydd a manylion y feddyginiaeth yr eir â nhw allan o'r cartref.
6	Meddyginiaeth sy'n cael eu trosglwyddo gyda'r preswlydd Gweler Adran 12	Cynhwyswch bob swm. Defnyddiwch MAR cyfredol neu siart gyfatebol. Dylech gadw'r cyfan gyda nodiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na'u hanfon gyda'r defnyddiwr gwasanaeth.
7	Gwaredu meddyginiaeth Gweler Adran 10	Ar ôl i gleient farw, mae'n rhaid i'r holl feddyginiaeth gael ei chadw hyd nes nad oes mo'i hangen mwyach gan y crwner.
8	Gwallau Rhoi Meddyginiaeth Gweler Adran 11	
9	Archebion ar lafar. Gweler Adran 8	

Nodiadau:

Mae newid mewn deddfwriaeth yn golygu bod modd i gartrefi gofal â gofal nyrsio drefnu i gcontractwr gwaredu gludo meddyginiaeth wastraff i'w gwaredu. Cytunwyd ar hyn gan BIPBC. Neu gall fferyllfeydd dderbyn gwastraff (ond nid oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i wneud hynny) gan gartrefi nyrsio â gofal nyrsio ond mae gwastraff o'r safleoedd hyn yn amodol ar reolau llym

www.psn.org.uk/services-commissioning/essential-services/disposal-of-unwanted-medicines

9a. Cofnodion Cyffuriau wedi'u Rheoli

1. Yn ogystal â'r cofnodion sy'n ofynnol o ran yr uchod, mae'n rhaid i gartrefi gofal gadw cofnod ar wahân o dderbynnwch, rhoi meddyginiaeth a'i gwaredu. Mae'n rhaid i'r cofnodion hyn gael eu rhwymo mewn llyfr neu gofrestr wedi'u rhwymo gyda thudalennau wedi'u rhifo.
2. Bydd y llyfr wedi'i rhwymo yn cynnwys y balans sy'n weddill am bob cynnyrch ynghyd â thudalen gofnodi ar wahân i gael ei chynnal ar gyfer pob Preswlydd. Argymhellir gwirio balans cyffuriau wedi'u rheoli bob tro y byddwch yn eu rhoi a hefyd yn rheolaidd e.e. yn wythnosol neu'n fisol.
3. Mae'n rhaid i nodiadau ddangos
 - Dyddiad
 - Enw'r cynnyrch a dderbyniwyd
 - Y cryfder
 - Y swm
 - Y ffurf (h.y. tabled, hylif, capsïwl)

10. Gwaredu / Dychwelyd Meddyginiaeth

Cwmpas - Bydd y weithdrefn yn ymwneud â gwaredu / dychwelyd meddyginiaeth yn amrywio rhwng gofal nyrsio a gofal preswyl.

Gwaredu meddyginiaeth o Gartrefi Gofal neu ei dychwelyd at ofal preswyl

	Gweithred	Sail resymegol
1	Er mwyn cynnig trywydd archwilio llawn o feddyginiaeth trwy gartref gofal, mae angen cofnod er mwyn nodi bod meddyginiaeth y preswlydd yn cael ei symud o'r cartref.	
2	Dylai'r meddyginiaethau sy'n cael eu cadw mewn cartref gofal ar unrhyw adeg benodol fod yn briodol i therapi presennol preswlydd, dylid gwaredu unrhyw feddyginiaeth dros ben neu unrhyw feddyginiaeth nad oes mo'i hangen yn y ffordd gywir.	Pan fo newid therapi a lle mae cynnyrch wedi'i ddirwyn i ben - dylid dychwelyd y feddyginiaeth at y cyflenwr (gyda chydysyniad y Preswlydd).
3	Pan fo preswlydd yn dewis gadael y cartref gofal, dylid dychwelyd y feddyginiaeth at y preswlydd, oni bai ei fod wedi cydsynio i waredu ei feddyginiaeth yn y ffordd gywir.	Mae meddyginiaeth yn eiddo i'r preswlydd.
4	Mae gan bob meddyginiaeth ddyddiad dod i ben. Bydd rhai dyddiadau dod i ben yn fyrrach pan fydd cynnyrch yn cael ei ddefnyddio e.e. diferion llygaid.	Os oes gan feddyginiaeth ddyddiad dod i ben byrrach pan fydd yn cael ei ddefnyddio, bydd manylion am hyn yn y daflen wybodaeth i gleifion.
5	Ar ôl i breswlydd farw, dylid cadw'r feddyginiaeth am 14 dydd, rhag ofn y bydd eu hangen ar Swyddfa'r Crwner neu'r llys.	
6	Y dull arferol o ran gwaredu meddyginiaeth mewn cartref gofal ddylai fod trwy ddychwelyd y feddyginiaeth at y cyflenwr.	Yna gall y cyflenwr sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei gwaredu yn y ffordd gywir
7	Dylid creu cofnod cyflawn o'r feddyginiaeth ar adeg gadael y cartref gofal.	
8	Dylai'r cofnodion gynnwys y canlynol:- Dyddiad gwaredu/dychwelyd at y fferyllfa Enw a chryfder y feddyginiaeth Ansawdd y feddyginiaeth Enw'r preswlydd a oedd yn berchen ar y feddyginiaeth. Llofnod yr aelod o weithwyr gofal a drefnodd i'r feddyginiaeth gael ei dychwelyd. Rheswm dros waredu e.e y meddyg teulu wedi rhoi terfyn arnynt, claf yn marw ac ati.	Dylid storio meddyginiaeth hylifol yn ei chynhwysydd gwreiddiol mewn cwpwrdd dan do, ar wahân i stoc sy'n cael ei defnyddio.
9	Mae'n rhaid i'r fferyllfa gymunedol gofnodi'r cofnodion hyn hefyd er mwyn dangos eu bod yn derbyn y feddyginiaeth sydd wedi'i dychwelyd.	Mae angen sicrhau bod trywydd archwilio cyflawn yn ei le.

Sylwer: Mae cofnod yn angenrheidiol hefyd os caiff meddyginiaeth ei throsglwyddo i ddarparwr gofal arall, gan gynnwys ysbyty'r GIG.

Gwaredu o Gartrefi Gofal / Dychwelyd meddyginiaeth at ofal nyrso

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Er mwyn cynnig trywydd archwilio llawn o feddyginiaeth trwy gartref gofal, mae angen cofnod er mwyn nodi bod meddyginiaeth y preswlydd yn cael ei symud o'r cartref.	
2.	Dylai'r meddyginiaethau sy'n cael eu cadw mewn cartref gofal ar unrhyw adeg benodol fod yn briodol i therapi presennol preswlydd, dylid gwaredu unrhyw feddyginiaeth dros ben neu unrhyw feddyginiaeth nad oes mo'i hangen yn y ffordd gywir.	Pan fo newid therapi a lle mae cynnyrch wedi'i ddirwyn i ben - dylid dinistrio'r feddyginiaeth at y cyflenwr (gyda chydysyniad y preswlydd).
3.	Pan fo preswlydd yn dewis gadael y cartref gofal, dylid dychwelyd y feddyginiaeth at y Preswlydd, oni bai bod y Preswlydd wedi cydsynio i waredu ei feddyginiaeth yn ddiogel yn y ffordd gywir.	
4.	Mae gan bob meddyginiaeth ddyddiad dod i ben. Bydd rhai dyddiadau dod i ben yn fyrrach pan fydd cynnyrch yn cael ei ddefnyddio e.e. diferion llygaid. (Os oes gan feddyginiaeth ddyddiad dod i ben byrrach pan fydd yn cael ei defnyddio, bydd manylion am hyn yn y daflen wybodaeth i gleifion).	
5.	Ar ôl i breswlydd farw, dylid cadw'r feddyginiaeth am 14 dydd, rhag ofn y bydd eu hangen ar Swyddfa'r Crwner neu'r llys.	
6.	Dylid gwneud cofnod o hyn, a sicrhau bod casglwr gwaredu gwastraff yn ei gydlofnodi i ddangos eu bod wedi'u casglu	Mae angen cadw nodiadau trossglwyddo gwastraff am ddwy flynedd.
7.	Mae'n rhaid tynnu meddyginiaeth o'r pecynnau gwreiddiol cyn eu rhoi yn y bin DOOP. Dylid storio meddyginiaeth hylifol yn ei chynhwysyddion gwreiddiol mewn cwpwrdd dan do, ar wahân i stoc sy'n cael ei defnyddio	
8.	Dylai nodyn cyflawn o feddyginiaeth sy'n mynd allan o'r cartref gael ei gofnodi. Dylai'r cofnodion gynnwys y canlynol:- Enw'r preswlydd a oedd yn berchen ar y feddyginiaeth Dyddiad gwaredu Enw a chryfder y feddyginiaeth Ansawdd y feddyginiaeth Llofnod yr aelod o weithwyr gofal a drefnodd waredu'r feddyginiaeth yn ogystal â llofnod ychwanegol gan dyst. Rheswm dros waredu e.e y meddyg teulu wedi rhoi terfyn arnynt, claf yn marw ac ati.	

Sylwch:

Mae cofnod yn angenrheidiol hefyd os caiff meddyginiaeth ei throsglwyddo i ddarparwr gofal arall, gan gynnwys ysbyty'r GIG.

Gwaredu/Dychwelyd Cyffuriau wedi'u Rheoli

	Gweithred	Sail resymegol
1	Dylid cadw cyffuriau wedi'u rheoli yng nghwprdd dan glo Cyffuriau wedi'u Rheoli cyn newid eu natur ond gan sicrhau eu bod wedi'u cadw ar wahân i stoc i'w defnyddio.	
2	Gellir gwaredu Cyffuriau wedi'u Rheoli, sydd wedi'u cael ar bresgripsiynau unigol y GIG trwy eu dychwelyd at y fferyllfa sy'n cyflenwi. Argymhellir cael llofnod derbyn gan y fferylllydd (neu'r gyrrwr dosbarthu sy'n derbyn y nwyddau a'r fferylllydd).	
3	Dylai cyffuriau wedi'u rheoli sy'n cael eu dychwelyd at y fferyllfa i'w gwaredu gael eu cadw ar wahân i feddyginiaeth reolaidd	
4	Dylai nodyn cyflawn o feddyginiaeth Cyffuriau wedi'u Rheoli sy'n mynd allan o'r cartref gael ei gofnodi.	
5	Dylai'r cofnodion gynnwys y canlynol:- Dyddiad gwaredu/dychwelyd at y fferyllfa Enw a chryfder y feddyginiaeth Ansawdd y feddyginiaeth Enw'r Preswyllydd a oedd yn berchen ar y feddyginiaeth. Llofnod yr aelod o weithwyr gofal a drefnodd i'r feddyginiaeth gael ei dychwelyd a chydlofnod Rheswm dros waredu e.e y meddyg teulu wedi rhoi terfyn arnynt, claf yn marw ac ati.	
6	Fodd bynnag, yn achos preswylwyr cartrefi gofal, mae'n rhaid i'r Cyffuriau wedi'u Rheoli gael eu dinistrio (h.y. trwy newid eu natur) ym mhresenoldeb tyst ac yna mae'n rhaid iddynt gael eu casglu ynghyd â gwastraff arall gan y contractwyr casglu gwastraff.	Yn achos cartrefi nyrsio sy'n dewis dychwelyd gwastraff at y fferyllfa, gofynnwch am gyngor gan y fferylllydd sy'n derbyn.

Sylwch:

Mae'n rhaid i waredu cyffur wedi'i reoli gael ei nodi ar y gofrestr yng nghwmni tyst a'i gofnodi ar y MAR neu'r siart gyfatebol.

11. Gwall Rhoi Meddyginiaeth

Cwmpas

Mae'n bwysig i ddiwylliant agored fodoli er mwyn annog adrodd ar wallau yn y fan a'r lle wrth roi meddyginiaeth.

Ymhlith yr enghreifftiau o wallau rhoi meddyginiaeth y mae'r canlynol:

Rhoi'r ddos anghywir, gormod, heb fod yn ddigonol
Ni roddir meddyginiaeth
Caiff meddyginiaeth ei rhoi i'r Preswlydd anghywir.

	Gweithred	Sail resymegol
1	Os bydd gwall yn digwydd o ran meddyginiaeth, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal sicrhau bod y preswlydd yn ddiogel	
2	Am gyngor neu wybodaeth Gweler y daflen wybodaeth am gynhyrchion. Cysylltwch â Galw Iechyd Cymru (0845 4647) neu â gwasanaeth y Tu Allan i Orlau Lleol fel bo'n briodol. Gwasanaeth gwybodaeth am feddyginiaethau Ysbyty Gwynedd - 01248 384141 Ysbyty Glan Clwyd -01745 448788 ext. 6216	
3	Gallai fod angen cysylltu â'r Meddyg Teulu / Fferylllydd i gael cyngor, gwybodaeth neu gymorth yn y fan a'r lle	Er mwyn hybu dulliau diogel o reoli meddyginiaethau
4	Mae'n rhaid i'r canlynol gael gwybod am y digwyddiad: Rheolwr llinell / uwch aelod o'r gweithwyr gofal Rheolwr/Perchennog Cartref Gofal Practis Meddyg Teulu Rhowch wybod i berthynas/gwarcheidwad.	
5	Dylid gwneud nodyn yng nghynllun gofal y preswlydd/nodiadau'n ymwneud â'r digwyddiad ac unrhyw ddigwyddiadau a ddilynodd hynny.	
6	Mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gael gwybod am unrhyw ddigwyddiad (Ffurflen Gwallau Meddyginiaeth / ffurflen lawn rheoliad 38 ar gael o'r ddolen isod www.cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/170531reg38cy.doc	System Adrodd
7	Os daw gwall i'r amlwg yn ymwneud â rhagnodi neu ddosbarthu yn naill ai gofal cychwynnol neu o'r ysbyty, cwblhewch ffurflen digwyddiadau arwyddocaol a'i chyflwyno i'r Uned Cefnogi Gofal Cychwynnol, yr Adran Llywodraethu Clinigol. Ardal Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint ac Wrecsam :- 01352 803354 Ffacs: 01352 754649 Neu	

	Ardal Gwynedd a Môn: 01286 674269 Ffacs: 01286 674197 http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/BCUHB%20PCSU%20Incident%20Reporting%20form%20April%202016.pdf	
8	Dylid cynnal adolygiad neu asesiad o'r weithdrefn weinyddol, er mwyn asesu pam y digwyddodd y gwall a pha gamau y mae modd eu cymryd er mwyn atal y gwall rhag digwydd eto.	Gwers a ddysgwyd

Nodiadau

1. Mae'n rhaid i'r cartref gofal wneud y canlynol:
meddu ar system glir i adrodd ar ddigwyddiadau
Ymchwilio i ddigwyddiadau a phenderfynu p'un a oes angen iddynt gynnig hyfforddiant i unigolion neu adolygu unrhyw weithdrefnau sydd eisoes yn bodoli.
Cofnodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd
Adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau difrifol wrth y corff rheoleiddio
2. Mae'n rhaid atgoffa'r holl weithwyr gofal am bwysigrwydd adrodd ar yr holl wallau meddyginiaeth ar unwaith, waeth pa mor ddibwys yr ymddengys y gallent fod. Gallai methiant i adrodd ar unrhyw wall arwain at gamau disgyblu.

12. Rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg

Cwmpas

Mae'n hanfodol cyfeirio at "Safonau arfer gorau ar gyfer Gogledd Cymru o ran rheoli meddyginiaethau yn achos oedolion - adran 22" ar roi meddyginiaethau mewn ffordd nad yw'n oramlwg.

Mae'n rhaid i'r weithdrefn isod alinio â pholisi'r cartref ar roi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg.

D.S.: Mae gan bob dinesydd yr hawl i wrthod meddyginiaeth a dylid parchu'r hawl hon.

Mae rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg yn cyfeirio at ei rhoi ar ffurf guddiedig heb wybodaeth neu gydsyniad yr unigolyn sy'n ei derbyn, er enghraifft mewn bwyd neu ddiod.

Gall rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg ddigwydd dim ond lle mae'r preswlydd wedi'i asesu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i ddangos nad oes ganddo'r galluedd i roi cydsyniad a lle bo asesiad ystyrlon o anghenion y dinesydd / preswlydd wedi'i gynnal gan dîm amlddisgyblaethol.

Pan fo rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg yn cael ei hystyried, dylai fod cyfarfod 'er lles pennaf'. Pwrpas y cyfarfod hwn yw cytuno p'un a yw rhoi meddyginiaethau'n ddarwybod (mewn ffordd nad yw'n oramlwg) i'r preswlydd er ei les pennaf. Dylai staff cartrefi gofal, gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol (gan gynnwys y rhagnodwr a'r fferyllydd) ac unigolyn sy'n gallu cyfleu safbwynt a buddiannau y preswlydd fynd i'r cyfarfod (gallai hyn fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol gan ddibynnu ar yr hyn a ddatganodd y preswlydd yn flaenorol o ran ei ddymuniaid a'i amgylchiadau unigol). Os oes atwrnai wedi'i benodi yn ddiweddar o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ymwneud â phenderfyniadau iechyd a lles, dylai'r unigolyn hwn fod yn bresennol yn y cyfarfod.

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Dylai rheolwr / nyrs y cartref gofal gynnal asesiad risg llawn er mwyn asesu galluedd preswlydd i gydsynio i roi meddyginiaeth.	Gofyniad Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
2.	Mae'r cyfarfod 'er lles pennaf' yn cytuno ar gynllun rheoli priodol ar gyfer y preswlydd gan gynnwys dyddiad adolygu. Byddai'r cynllun rheoli'n cynnwys y canlynol fel arfer: a. adolygu meddyginiaeth gan y meddyg teulu b. adolygu meddyginiaeth gan y fferyllydd i gynghori'r cartref gofal ynghylch sut mae modd rhoi'r feddyginiaeth yn ddiogel mewn ffordd nad yw'n oramlwg c. dogfennaeth glir o'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod 'er lles pennaf'	Mae'n rhaid i gynllun ysgrifenedig sy'n benodol i'r preswlydd a gweithdrefn yn ymwneud â meddyginiaeth i'w rhoi mewn ffordd nad yw'n oramlwg, fod ar gael i bawb sydd ynghlwm wrth ofal y preswlydd a'i deulu/cynrychiolwyr ei weld
3.	Mae'n rhaid cytuno ar gynllun a'i gofnodi i adolygu'r angen i roi meddyginiaethau'n barhaus mewn ffordd nad yw'n oramlwg yn rheolaidd yng nghynllun gofal y dinesydd / preswlydd ac i gael ei gofnodi gan glinigwr y claf yn ei gofnodion meddygol.	Efallai y bydd y gweithiwr gofal / dinesydd / preswlydd / cynrychiolydd yn gofyn am adolygiad ad hoc os bydd amgylchiadau / cyflwr y dinesydd / preswlydd yn newid.
4.	Dylai cyfarwyddiadau penodol gael eu cynnwys gan y sawl sy'n rhagnodi yn ymwneud â'r dull o roi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg.	Er mwyn sicrhau bod y gweithiwr gofal yn deall sut i roi'r feddyginiaeth mewn ffordd ddiogel.
5.	Dylai'r sawl sy'n dosbarthu gynnwys y cyfarwyddiadau ar y label dosbarthu ar y MAR neu'r siart gyfatebol os yw ar gael, e.e. malwch y	Er mwyn sicrhau bod y gweithiwr gofal yn deall sut i roi'r feddyginiaeth mewn ffordd ddiogel.

	feddyginiaeth a'i chymysgu gydag iogwrt lle bo modd gwneud hynny.	
6.	Mae'n rhaid i fformwleiddiadau amgen o'r feddyginiaeth a allai fod yn fwy derbyniol fod wedi cael eu hystyried e.e. paratoad hylifol	
7.	Mae'n rhaid i feddyginiaeth a roddir ddilyn y weithdrefn fel y'i hamlinellir yn Adran 7	Er mwyn sicrhau bod modd rhoi meddyginiaeth yn ddiogel
8.	Os nad oes cytundeb i roi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg, yna dylid gwneud cais i'r llys ar unwaith.	

Sylwch:

1. Mae'n rhaid i'r fferylllydd fod yn gysylltiedig â'r penderfyniadau hyn gan fod ychwanegu meddyginiaeth at fwyd neu ddiod yn gallu newid eu priodweddau fferyllol ac effeithio ar eu perfformiad o'r herwydd.
2. Dylid parhau i ymdrechu'n gyson i annog y preswilydd i gymryd y feddyginiaeth o'i wirfodd
3. Nid oes modd malu/hydoddi'r holl feddyginiaeth. Mae rhestr gyfeirio ar gael ar <http://www.newtguidelines.com/>
4. Daw cyfrifoldeb cyfreithiol y gwneuthurwr i ben pan gaiff cyfanrwydd ei gynnyrch ei andwyo h.y. pan gaiff y tabled ei falu, ei dorri neu ei roi mewn ffordd wahanol i'r un yn y daflen wybodaeth i gleifion.
5. Mae malu meddyginiaethau a'u cymysgu â bwyd a diod yn eu gwneud yn fwy blasus neu'n haws eu llyncu yn wahanol i roi meddyginiaethau mewn ffordd nad yw'n oramlwg ac mae'n rhaid i breswylwyr gael gwybod bob amser bod meddyginiaeth yn cael ei hychwanegu at fwyd. Pan fydd preswilydd wedi cydsynio i hyn, nid yw'n gyfystyr â rhoi meddyginiaeth mewn ffordd nad yw'n oramlwg ond mae angen iddi gael ei rhagnodi'n briodol.

13. Meddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio y tu allan i'r Cartref Gofal

Cwmpas

Mae hyn yn ymwneud â'r holl sefyllfaoedd lle y gallai fod angen meddyginiaeth ar breswylwyr i fynd â hi o'r Cartref Gofal. Er enghraifft, mae'r preswlydd yn mynd ar wyliau, yn aros gyda pherthnasau/ffrindiau ac ati...

	Gweithred	Sail resymegol
1	Ni chaiff Gweithwyr Gofal lenwi dyfeisiau cydymffurfiaeth ar ran y preswlydd	Mae dosbarthu eilaidd o ran meddyginiaeth i gynhwysyddion eraill e.e. amlenni, poteli gwag ac ati, yn gyfystyr â dosbarthu eilaidd ac mae'n anghyfreithiol . Mae potensial am wallau gyda chyffuriau pan gaiff meddyginiaethau eu paratoi ymlaen llaw i mewn i botiau, hyd yn oed pan fo enw wedi'i atodi i'r pot, mae'r broses hon wedi tynnu rhwyd ddiogelwch hollbwysig - i wirio'r cyffur, y cryfder a'r ddos â chofnod y cartref gofal a'r label ar y feddyginiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn gwirio pwy yw'r unigolyn.
2	Mae'n rhaid i feddyginiaethau sydd i'w rhoi tra bydd y preswlydd i ffwrdd o'r cartref gael eu rhoi yn y cynhwysydd gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau fod yn glir a chael eu dilyn yn fanwl-gywir Mewn rhai sefyllfaoedd e.e. mynychu canolfan ddydd yn rheolaidd, mae modd trefnu cyflenwad meddyginiaeth ar wahân ar gyfer cyfnod yr absenoldeb a gall gweddill y feddyginiaeth aros yn y cartref ar ôl trafod gyda'r meddyg teulu a'r fferylllydd cymunedol.	Er mwyn atal newid perfformiad meddyginiaethau.
3	Mae'n rhaid i nodiadau gael eu gwneud ar MAR neu'r siart gyfatebol bod y preswlydd i ffwrdd o'r cartref.	Er mwyn sicrhau na chaiff dosiau dyblyg eu rhoi
4	Dylid cofnodi manylion am swm y feddyginiaeth sy'n gadael y cartref gofal ac sy'n cael ei ddychwelyd	

Sylwch: Os bydd yr unigolyn yn mynd yn rheolaidd i dreulio'r penwythnos gyda'i deulu, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai ei feddyginiaeth fynd gydag ef. Nid yw'r meddyginiaethau'n eiddo i'r unigolyn

13a Yn achos Gofal Dydd rheolaidd i ffwrdd o'r Cartref Gofal

- Os bydd preswlydd yn mynychu canolfan ddydd, ysgol, coleg ac ati yn rheolaidd, mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau y bydd yn dal i dderbyn ei feddyginiaeth yn briodol.
- Gofynnwch i'r rhagnodwr neu'r fferylllydd p'un a oes modd newid neu addasu amser rhoi'r feddyginiaeth er mwyn delio ag absenoldeb y preswlydd pan fydd i ffwrdd o'r cartref.
- Dylid cysylltu â'r fferylllydd sy'n cyflenwi am gyngor a chymorth wrth ddelio â'r amgylchiadau penodol. Gallai'r rhain gynnwys; bod â chynhwysydd ar wahân o feddyginiaethau sy'n benodol i'r adeg o'r dydd y bydd yr unigolyn yn absennol yn rheolaidd, er enghraifft, meddyginiaethau amser cinio yn achos unigolyn sy'n mynd i ganolfan hyfforddi oedolion.
- Mae'n rhaid i'r cofnodion ddatgan yn glir beth fydd yn digwydd ar adeg rhoi'r feddyginiaeth hon e.e. trwy ddefnyddio codau A = absenoldeb ac ati.
- Bydd angen i'r gweithwyr gofal ymgysylltu â'r lleoliad gofal dydd i sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi fel y bwriadwyd i'r preswlydd a'i chofnodi yng nghynllun gofal / dyddiadur dyddiol y preswlydd.

14. Trosglwyddo Preswylwyr i leoliad arall (e.e. rhyddhau o'r ysbyty neu dderbyn i'r ysbyty)

Cwmpas

Yn achlysurol, bydd preswylwyr naill ai'n cael eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau oddi yno.

Derbyn i'r ysbyty:

	Gweithred	Sail resymegol
1.	Dylai'r holl feddyginiaeth gyfredol gael ei hanfon i'r ysbyty gyda'r preswlydd.	
2.	Sicrhewch fod llun o'r MAR neu siart gyfatebol ddiweddaraf yn cael ei gludo gyda'r preswlydd i'r ysbyty.	
3.	Sicrhewch fod unrhyw nodiadau a wneir ar gefn y MAR neu'r siart gyfatebol yn cael eu llungopio hefyd.	
4.	Ni ellir anfon y MAR gwreiddiol neu'r siart gyfatebol gyda'r preswlydd o dan unrhyw amgylchiadau, gan mai dogfen gyfreithiol gyfredol yw hon.	
5.	Mae'n rhaid i nodiadau gael eu gwneud ar y MAR neu'r siart gyfatebol tra bydd y preswlydd yn yr ysbyty i ddangos nad yw'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi yn y cartref gofal	

Rhyddhau preswlydd o'r ysbyty:-

	Gweithred	Sail resymegol
6.	Mae'n bosibl y bydd gan drigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty feddyginiaeth sy'n wahanol i feddyginiaeth a gynigir cyn mynd â nhw i'r ysbyty. Mae'n rhaid gwaredu'r hen feddyginiaeth (nad yw'n cael ei defnyddio mwyach) yn unol ag Adran 10. Fel arfer, caiff preswylwyr eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chyflenwad gwerth o leiaf 14 diwrnod o feddyginiaeth.	
7.	Sicrhewch eich bod yn dod â'r daflen ryddhau pinc gan y bydd hon yn manylu ar yr unig feddyginiaeth y bydd y preswlydd yn ei chymryd.	
8.	Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau mewn meddyginiaeth gael eu cofnodi ar unwaith ar MAR cyfredol neu siart gyfatebol y preswlydd	
9.	Rhowch wybod i'r fferyllfa sy'n cyflenwi am yr holl newidiadau i feddyginiaeth y preswlydd.	
10.	Anfonwch y daflen ryddhau neu ewch â hi i feddygfa'r preswlydd (o fewn 48 awr)	
11.	Archebwch unrhyw feddyginiaeth ychwanegol sydd ei hangen	

15. Moddion Cartref

Os nad yw'r cartref yn caniatáu defnyddio moddion cartref, yna dylid cofnodi hyn.

Cwmpas

Ar unrhyw adeg benodol, dylai'r cartref allu adnabod y feddyginiaeth sydd ar gael fel moddion cartref, cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer pob meddyg yn achos pob math o foddion a chael arweiniad unigol yn ei le pan fydd modd defnyddio cynnyrch a rhoi'r ddos. Dylai'r cartref gael cofnod hefyd pan fo preswlydd wedi derbyn y moddion. Mae'n rhaid cytuno ar restr o foddion cartref i'w defnyddio'n ysgrifenedig gan bob practis teulu'n nodi p'un a yw'r arweiniad ar gyfer preswylwyr unigol neu ar gyfer yr holl drigolion sydd wedi'u cofrestru â'r practis hwn.

Cyngor

1. Gall cartrefi gofal gael cyngor gan feddyg teulu cyn rhoi Moddion Cartref os yw hynny'n well ganddynt (e.e. gwasanaeth meddygon brys ar benwythnosau)
2. Mae'n rhaid i unrhyw feddyginiaeth gael ei rhoi yn unol ag Adran 7 y ddogfen hon (Rhoi meddyginiaethau)
3. Caiff gweithwyr gofal sy'n rhoi moddion cartref i breswylwyr eu henwi a byddant yn llofnodi'r broses i gadarnhau bod ganddynt y sgiliau i roi'r moddion cartref drostynt eu hunain ac maent yn cydnabod y byddant yn atebol am eu gweithredoedd
4. Dim ond pecynnau sy'n cael eu prynu dros y cownter y gellir eu cadw fel Moddion Cartref, mae'r rhain yn cynnwys y rhybuddion a'r wybodaeth briodol.
5. Mae'n rhaid i'r moddion gael eu storio ar wahân i feddyginiaeth preswylwyr eu hunain, mewn cwpwrdd dan glo a chael eu marcio'n gir fel **MODDION CARTREF**
6. Yn ddelfrydol, dylid cadw llyfr ar wahân hefyd gyda mantolen gyfredol a dyddiadau dod i ben ar gyfer yr holl foddion cartref.
7. Mae'n rhaid gwirio dyddiadau dod i ben yn rheolaidd a chyn eu defnyddio
8. Dylid marcio'r dyddiad ar boteli hylif pan gânt eu hagor yn eu lle cyntaf. Dylid dilyn arweiniad cynnyrch (ar y pecyn) yn ymwneud â pha mor hir i gadw potel ar agor unwaith y bydd wedi'i hagor.
9. Dylai cartrefi gynnal cofnod o'r hyn a brynir a gwaredu'r holl foddion cartref er mwyn cynnig trywydd archwilio

llawn

Gweithdrefn

	Gweithred	Sail resymegol
1	Mae'n rhaid i'r penderfyniad i roi Moddion Cartref neu i gysylltu â'r meddyg teulu gael ei wneud gan aelod gweithiwr gofal sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.	
2	Pan fydd yr aelod gweithiwr gofal ag awdurdod o'r farn bod angen moddion cartref ar y preswlydd, dylai: Wirio bod y moddion yn briodol ar gyfer y cyflwr. Gwirio bod cymeradwyaeth ysgrifenedig gan feddyg teulu'r preswlydd i'r moddion gael eu defnyddio. Sicrhau nad oes unrhyw ryngweithiadau â meddyginiaeth arall y mae'r preswlydd yn ei chymryd	
3	Mae'n rhaid i'r holl ddosiau a roddir gael eu rhoi ar unwaith ar gefn MAR y preswlydd ac yn llyfr cofnodion Moddion Cartref gyda'r ansawdd, y dyddiad a'r amser ar Gynllun Gofal y preswlydd, ynghyd â manylion am gyflwr y preswlydd.	
4	Mae modd ailadrodd dosiau, yn unol â phrotocol ar gyfer moddion am uchafswm hyd o 24 awr oni chyfarwyddir fel arall yn y protocol. Os na fydd y preswlydd yn ymateb i'r Moddion Cartref neu os bydd y cyflwr yn gwaethygu, dylech ei gyfeirio at y meddyg teulu neu'r fferyllfa gymunedol leol hyd yn oed os yw hyn cyn y swm uchaf o 48 awr.	

Datblygu Polisi Moddion Cartref newydd

Dylai pob darn o arweiniad gynnwys y wybodaeth ganlynol:

Enw, cryfder a ffurf y feddyginiaeth.

Dos ac amllder rhoi meddyginiaeth.

Cyfarwyddiadau dosiau penodol

e.e. ar stumog wag

e.e. nid i'w cymryd ar yr un pryd â moddion i'w hamlyncu.

Meini prawf defnyddio h.y. at ba gyflyrau y gellir defnyddio'r moddion

e.e. wlsr y geg

e.e. ar gyfer poen neu gur pen achlysurol.

Uchafswm hyd triniaeth cyn y dylid cysylltu â meddyg teulu.

Unrhyw arweiniad ychwanegol y mae'r cartref neu'r meddyg teulu'n awyddus i'w gynnwys.

Cytundeb trwy feddyg teulu, yn datgan p'un a yw'r moddion cartref ar gyfer pob preswlydd neu rai sydd wedi'u henwi'n unigol.

Protocol Moddion Cartref Enghreifftiol

Dim ond y meddyginiaethau a restrir ac a gymeradwyir isod y gellir eu defnyddio fel Moddion Cartref

Cartref Nyrsio/Gofal:

I gael eu defnyddio ar y cyd â pholisi meddyginiaethau'r cartref

Rhestr Moddion Cartref ac Awdurdodi Preswylwyr Unigol

Y ffordd orau o gofnodi yw ar yr un taflen â'r cofnod rhoi meddyginiaethau a ragnodir e.e. trwy ddefnyddio cefn y daflen cofnodi rhoi meddyginiaeth (MAR)

1.	Tabledi Parasetamol 500mg neu hylif di-siwgr Parasetamol 250mg/5mL
	Symptomau: Poen sy'n amrywio rhwng bod yn ysgafn ac yn gymedrol (cur pen, y ddannodd, neu boen gyhyrol), pyrecsia Dos: Rhwng un a dau dabled i'w cymryd rhwng pob pedair a chwe awr pan fydd angen. Uchafswm dos o wyth tabled (4g) mewn unrhyw gyfnod o 24 awr, neu 10-20 mL o'r hylif hyd at bedair gwaith y dydd gan adael o leiaf bedair awr rhwng oriau (uchafswm o 80mL neu unrhyw gyfnod o 24 awr) Rhybuddion: (gweler y BNF presennol am rybuddion eraill) Byddwch yn ymwybodol o unrhyw baratoadau y gall eisoes fod eu cymryd a allai gynnwys parasetamol
2.	Daliant Gaviscon/Peptac
	Symptomau: Dyspepsia Dos: Rhwng 10 a 20mL ar ôl prydau bwyd a chyda'r nos (uchafswm o 40mL mewn unrhyw gyfnod o 24 awr) Rhybuddion: (gweler y BNF presennol am rybuddion eraill) Gallai effeithio ar amsugno tabledi â haen enterig Peidiwch â'u rhoi o fewn dwy awr o roi cyffuriau eraill gan y gallai effeithio ar amsugniad. Peidiwch â'u rhoi i breswylwyr â methiant y galon neu'r rhai â deiet halen isel gan fod ganddo gynnwys sodiwm uchel.
3.	Lactwlos
	Symptomau: Rhwymedd Dos: 10-15mL ddwywaith y dydd (uchafswm dos o 30mL mewn unrhyw gyfnod o 24 awr) Rhybuddion: (gweler y BNF presennol am rybuddion eraill) Gallai gymryd hyd at 48 awr i weithio. Gall achosi gwynt.

4.	Pacedi ailhydradu		
	Symptomau: Dolur rhydd ysgafn (heb fod yn fwy na thair o garthion rhydd mewn cyfnod o 24 awr) Dos: Un bag bach bob tro y cewch garthion rhydd , yn ogystal â chymeriant arferol o hylif (uchafswm o bum bag bach mewn unrhyw gyfnod 24 awr) Rhybuddion: (gweler y BNF presennol am rybuddion eraill) <i>I'W DDEFNYDDIO AM UCHAFSWM O 12 AWR CYN GWELD MEDDYG TEULU</i> Peidiwch â'i roi cyn ymgynghori â meddyg teulu gyntaf os yw'n amlwg bod y preswilydd yn dioddef neu os yw dolur rhydd yn gymedrol neu'n ddifrifol. Peidiwch â'i roi heb ymgynghori â'r meddyg teulu gyntaf os yw'n effeithio ar fwy nag un preswilydd Peidiwch â'i roi heb ymgynghori â'r meddyg teulu gyntaf os oes gan y preswilydd ddiabetes		
5.	Tabledi Senna neu Surop Senokot		
	Symptomau: Rhwymedd Dos: Un neu ddau dabled neu o 5mL i 10mL yn ystod y nos (uchafswm o ddau dabled neu 10mL yn ystod unrhyw gyfnod o 24 awr) Rhybuddion: (gweler y BNF presennol am rybuddion eraill) Efallai y bydd yn newid lliw'r wrin neu'r carthion		
6.	Simple Linctus disiwgr		
	Symptomau: Peswch sych sy'n llidio Dos: 5mL i'w gymryd rhwng tair a phedair gwaith bob dydd (uchafswm dos o 20mL mewn unrhyw gyfnod 24 awr) Rhybuddion: Mae modd ei roi i bobl â diabetes		
	Awdurdodir y rhestr uchod o feddyginiaethau i'w rhoi fel moddion cartref i'r preswilydd sydd wedi'i enwi ar ochr arall y dudalen Enw'r Meddyg: Enw a Chyfeiriad y Practis Meddyg Teulu: Llofnod y Meddyg Dyddiad..... Dyddiad Adolygu.....		
Enw'r gweithwyr gofal sy'n gymwysedig i roi'r feddyginiaeth		Llofnod	Dyddiad

[illegible]

16 Dull Gweithredu Safonol ar gyfer cyffuriau wedi'u rheoli mewn Cartref Gofal

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn ymgorffori safonau ychwanegol o ran storio, rhoi a chofnodi Cyffuriau wedi'u Rheoli. Deddf Camddefnyddio Sylweddau 1971 yw'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Cyffuriau wedi'u Rheoli.

Storio Cyffuriau wedi'u Rheoli

Mae'n rhaid i gyffuriau wedi'u rheoli i'r preswylwyr hynny nad ydynt yn rhoi meddyginiaeth drostynt eu hunain gael eu storio mewn cypyrddau sy'n bodloni gofynion Rheoliad Camddefnyddio Cyffuriau (Cadw'n Ddiogel) 1973. Mae hyn yn sôn am benodol am:

- Adeiladu
- Dull gosod
- Clo ac allwedd i'r cwpwrdd

Pan fydd preswlydd yn rhoi ei feddyginiaeth drosto ei hun, gall gadw ei gyflenwad ei hun o gyffuriau wedi'u rheoli a ddosberthir yn unigol yn ei gwpwrdd dan glo personol.

Gweinyddiaeth

Amcan

Mae gadael i breswylwyr roi meddyginiaethau drostynt eu hunain (Cyffuriau wedi'u Rheoli) mewn cartref gofal gyda thrywydd archwilio llawn sy'n cydymffurfio â rheoliadau Cyffuriau wedi'u Rheoli a'r gyfraith

Cyfrifoldeb

Rheolwr y Cartref Gofal ac aelodau hyfforddedig a chymwysedig o staff / gweithwyr gofal wedi'u haseinio i roi meddyginiaethau ac wedi'u hardystio i fod yn gymwys. **Cydnabyddir mai gweithred risg fawr yw hon ac fel y cyfryw, caiff ei chwblhau bob amser gan ddau aelod dynodedig o staff / gweithwyr gofal**

	Beth?	Sut?
1	Lleoli meddyginiaeth	Caiff cyffuriau wedi'u rheoli eu storio mewn cabinet dan glo yn y cwpwrdd cyffuriau wedi'u rheoli dan glo mewn ystafell feddyginiaeth ddiogel. Caiff yr allwedd i'r ddau gwpwrdd eu cadw gan swyddog cyfrifol ar y sifft.
2	Lleoli'r Gofrestr Gyffuriau wedi'u Rheoli	Mae angen cofrestr rwyd cyffuriau wedi'u rheoli ar gyfer patrwm cymeradwy ac â rhifau ar y tudalennau. Dylai pob preswlydd gael tudalen ar wahân ar gyfer pob cyffur unigol Mae'n rhaid cofnodi ar y gofrestr hon bob tro y caiff y cyffur ei roi Mae rhaid cofnodi ar y gofrestr hon bob tro y caiff y cyffur ei waredu Mae'n rhaid cofnodi ar y gofrestr falans pob cyffur sydd ar ôl Dylai amllder y gwriad balans ddigwydd yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol gan ddibynnu ar ddefnydd. Mae hyn ar ddisgresiwn y nyrs neu'r rheolwr â chyfrifoldeb.

3	Dylech ddirnad p'un a oes gan y preswlydd unrhyw alergeddau i'r feddyginiaeth bresgripsiwn neu p'un a yw wedi cael unrhyw "sgîl-ffeithiau"	Gallai fod yn arsylw personol, cyfathrebu ar lafar neu holi uniongyrchol e.e. ar adeg trosglwyddo dyletswyddau
4	Gwiriwch nad yw'r feddyginiaeth wedi'i rhoi eisoes	
5	Dewiswch y feddyginiaeth gywir ar gyfer y preswlydd	Dylai'r ddau unigolyn dynodedig ddewis y feddyginiaeth gywir o'r cwpwrdd cyffuriau wedi'u rheoli
6	Dewiswch y fformiwla a'r llwybr cywir	Gall cyffuriau wedi'u rheoli fod yn dabledi, capsïwlau, patsys, hylifau neu dawddgyffuriau.
7	Gwiriwch ddyddiad dod i ben y pecyn gwreiddiol	
8	Nodwch y ddos gywir	E.e. Os yw'n "feddyginiaeth pan fo angen", a oes angen y ddos ar y Preswlydd?
9	Ystyriwch p'un a gaiff unrhyw un o'r rhybuddion neu'r rhagofalon neu'r cyfarwyddiadau arbennig eu hystyried	E.e. A oes rhaid rhoi'r feddyginiaeth cyn bwyd, ar ôl bwyd neu gyda bwyd? A oes rhaid cymysgu'r feddyginiaeth â dŵr? A ddylid llyncu'r feddyginiaeth yn gyfan gwbl, neu heb ei malu'n fân?
10	Rhoi cyffuriau wedi'u rheoli	Rhowch y feddyginiaeth mewn pot/cynhwysydd priodol Sicrhewch fod y cyffur wedi'i reoli'n cyfateb i'r MAR neu'r siart gyfatebol. h.y. - enw'r preswlydd, dos, swm ac amser Cyda dau weithiwr gofal yn bresennol, cyfrifwch swm y cyffur wedi'i reoli mewn pecyn priodol/Venalink. Gwiriwch y swm yn erbyn yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y gofrestr cyffuriau wedi'u rheoli er mwyn sicrhau bod y balans yn gywir
11	Cynigiwch wydraid o ddŵr i'r preswlydd er mwyn cynorthwyo o ran llyncu'r feddyginiaeth os yw'n berthnasol	Caiff rhai tabledi eu cymysgu â dŵr cyn cael eu llyncu
12	Rhowch y feddyginiaeth i'r preswlydd mewn cynhwysydd.	Dylai'r cynhwysydd hwn gael ei roi'n uniongyrchol i'r Preswlydd heb gael ei adael ar y bwrdd neu ar wrthy ch arall. Ni chaniateir dosbarthu eilaidd.
13	Gwylwch y preswlydd yn cymryd y feddyginiaeth, gan ganiatáu cymaint o urddas a phreifatrwydd â phosibl	Mae'n rhaid i chi fod yn glir bod y feddyginiaeth wedi'i chymryd ond ni allwch orfodi unrhyw glaf i gymryd unrhyw feddyginiaeth; mae dewis y claf o'r pwys mwyaf
14	Cofnodwch roi'r feddyginiaeth yn fanwl-gywir ar y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a'r gofrestr Cyffuriau wedi'u Rheoli cyn i chi adael y preswlydd.	Dylai dau aelod o weithwyr gofal fynd at y preswlydd sy'n cymryd y feddyginiaeth, MAR neu'r siart gyfatebol a'r gofrestr Cyffuriau wedi'u Rheoli Cofiwch, os na chaiff ei gofnodi, nid yw wedi digwydd cyn belled ag y mae'r gyfraith yn y cwestiwn!
15	Ail lofnod i gadarnhau rhoi meddyginiaeth ar MAR neu siart gyfatebol ac ar y gofrestr Cyffuriau wedi'u Rheoli	Dylai fod dau unigolyn i arsylwi a chofnodi bod cyffuriau wedi'u rheoli'n cael eu rhoi
16	Gwiriwch falans cyfredol y meddyginiaethau cyffuriau wedi'u rheoli yn y gofrestr a dylai'r ddau unigolyn dynodedig gydlofnodi os yw popeth yn gywir	Sicrhewch fod meddyginiaeth yn cael ei chadw dan glo yn syth ar ôl ei rhoi

17	Mae'n rhaid cadw cofnod o unrhyw achosion o fethiant i roi meddyginiaeth neu os bydd rhywun yn gwrthod ei chymryd gan gofnodi'r rheswm dros hynny yng nghynllun gofal y preswlydd	
18	Os canfyddir gwall yn y balans cyfredol, rhowch wybod i'r Rheolwr Cofrestredig neu i unigolyn dynodedig arall e.e. y Rheolwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol neu Reolwr yr Ardal	

Cofnodion Cyffuriau wedi'u Rheoli

- Yn ogystal â'r cofnodion sy'n ofynnol yn Adran 9a, mae'n rhaid i gartrefi gofal gadw cofnod ar wahân o dderbynnwch, rhoi meddyginiaeth a'i gwaredu. Mae'n rhaid i'r cofnodion hyn gael eu rhwymo mewn llyfr neu gofrestr wedi'u rhwymo gyda thudalennau wedi'u rhifo.
- Bydd y llyfr wedi'i rhwymo yn cynnwys y balans sy'n weddill am bob cynnyrch ynghyd â thudalen gofnodi ar wahân i gael ei chynnal ar gyfer pob preswlydd. Argymhellir gwirio balans cyffuriau wedi'u rheoli bob tro y byddwch yn eu rhoi ac yn rheolaidd. Mae hyn ar ddisgresiwn y nyrs neu'r rheolwr â chyfrifoldeb. Dylai amllder y gwiriad balans ddigwydd yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol gan ddibynnu ar ddefnydd.
- Mae'n rhaid i nodiadau ddangos
 - Dyddiad
 - Enw'r cynnyrch a dderbyniwyd
 - Y cryfder
 - Y swm
 - Y ffurf (h.y. tabled, hylif, capsïwl)

Gwaredu/Dychwelyd Cyffuriau wedi'u Rheoli

	Beth?	Sut?
1	Dylid cadw Cyffuriau wedi'u Rheoli yng nghwprdd dan glo Cyffuriau wedi'u Rheoli cyn newid eu natur ond gan sicrhau eu bod wedi'u cadw ar wahân i stoc i'w defnyddio.	
2	Gellir gwaredu Cyffuriau wedi'u Rheoli, sydd wedi'u cael ar bresgripsiynau unigol y GIG trwy eu dychwelyd at y fferyllfa sy'n cyflenwi. Argymhellir cael llofnod derbyn gan y fferylllydd (neu'r gyrrwr dosbarthu sy'n derbyn y nwyddau a'r fferylllydd).	
3	Dylai cyffuriau wedi'u rheoli sy'n cael eu dychwelyd at y fferyllfa i'w gwaredu gael eu cadw ar wahân i feddyginiaeth reolaidd	
4	Dylai nodyn cyflawn o feddyginiaeth Cyffuriau wedi'u Rheoli sy'n mynd allan o'r cartref gael ei gofnodi.	
5	Dylai'r cofnodion gynnwys y canlynol:- Dyddiad gwaredu/dychwelyd at y fferyllfa Enw a chryfder y feddyginiaeth Ansawdd y feddyginiaeth Enw'r preswlydd a oedd yn berchen ar y feddyginiaeth.	

	Llofnod yr aelod o weithwyr gofal a drefnodd i'r feddyginiaeth gael ei dychwelyd a chyd-lofnod Rheswm dros waredu e.e y meddyg teulu wedi rhoi terfyn arnynt, claf yn marw ac ati.	
6	Fodd bynnag, yn achos cleifion cartrefi nyrsio, mae'n rhaid i'r Cyffuriau wedi'u Rheoli gael eu dinistrio (h.y. trwy newid eu natur) ym mhresenoldeb tyst ac yna mae'n rhaid iddynt gael eu casglu ynghyd â gwastraff arall gan y contractwyr casglu gwastraff.	Yn achos cartrefi nyrsio sy'n dewis dychwelyd gwastraff at y fferyllfa, gofynnwch am gyngor gan y fferyllydd sy'n derbyn.

17. Dull Gweithredu Safonol pan gaiff meddyginiaeth ‘Pan fo angen’ (meddyginiaeth PRN) ei rhoi

Pwynt Allweddol

Caiff meddyginiaeth bresgripsiwn i'w chymryd 'pan fo angen' (PRN) ei rhagnodi fel arfer i drin cyflyrau neu symptomau meddygol byrdymor neu ysbeidiol h.y. os nad yw'n cael ei chymryd yn rheolaidd

Dylai fod cyfarwyddiadau clir yn y Cynllun Gofal yn disgrifio p'un a ddylid cynnig y feddyginiaeth i'r preswlydd yn rheolaidd neu a ddylid ei rhoi mewn ymateb i gais gan y preswlydd yn unig.

	Beth?	Sut?
1	Er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi fel y bwriadwyd, mae'n rhaid i gynllun rhoi penodol gael ei gofnodi yn y cynllun gofal ac yn ddelfrydol, dylai gael ei gadw gyda'r MAR neu'r siart gyfatebol Mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal sicrhau bod cyfarwyddiadau penodol ar y MAR neu'r siart gyfatebol, fel: Pa feddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio e.e. i leddfu poen yn y gliniau, i gynorthwyo cwsgr Y cyfnod gofynnol rhwng dosiau Ansawdd/dos y feddyginiaeth i'w rhoi Uchafswm nifer y dosiau mewn 24 awr	Ni chaniateir i weithwyr gofal roi cymorth gyda '<i>meddyginiaeth pan fo angen</i>' oni bai bod cyfarwyddiadau penodol sy'n nodi manylion am eu defnyddio Dylid cynnig y feddyginiaeth i'r preswlydd pan fydd yn cael y symptom naill ai trwy roi gwybod i'r gweithiwr gofal, neu pan fydd y gweithiwr gofal yn nodi angen y preswlydd fel y'i hamlinellir yn y cynllun gofal
2	Cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth bresgripsiwn, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal edrych ar MAR neu siart gyfatebol y preswlydd gan wirio a dilyn y weithdrefn a ddisgrifir yn Adran 7 Dylai'r gweithiwr gofal: Wirio pan gafodd y ddos ddiwethaf ei rhoi Gwirio bod y cyfnod gofynnol rhwng dosiau wedi mynd heibio. Gwirio nad yw'r preswlydd wedi cymryd dos os yw'n rhoi meddyginiaeth drosto ei hun neu nad yw gweithiwr gofal arall wedi rhoi'r ddos. Cofnodi'r union amser, dyddiad a dos y feddyginiaeth a roddwyd.	Er mwyn atal unrhyw gamgymeriadau rhag codi Cadw cofnodion cyfoes (gweler Adran 9 Cadw Cofnodion Meddyginiaeth)
3	Os caiff '<i>meddyginiaeth pan fo angen</i>' ei rhoi'n bur anaml, gwiriwch fod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi at y diben pam mae ei hangen erbyn hyn, bod 'PRN' gwahanol neu feddyginiaeth reolaidd wedi cymryd ei le, ac nad yw'r preswlydd wedi dechrau ar unrhyw feddyginiaeth newydd a allai ryngweithio â hi. Dylid ystyried galluedd y preswlydd i wrthod y feddyginiaeth	Nid oes rhaid i gofnod gael ei greu yn ystod pob ymweliad i ddangos bod y feddyginiaeth wedi'i chynnig i'r preswlydd ond mae'n arfer da gwneud hyn ac i nodi pan gaiff meddyginiaeth PRN ei gwrthod
4	Dylai gweithwyr gofal roi gwybod i'w rheolwr/unigolyn cyfrifol, a dylai gysylltu â meddyg y preswlydd yn achos y canlynol:	

	Mae'r preswlydd yn awyddus i gymryd meddyginiaeth PRN yn amlach nag a ragnodwyd Mae defnydd o feddyginiaeth PRN yn cynyddu Os oes rheswm i gredu nad yw'r PRN yn effeithiol mwyach Os oes rheswm i gredu nad oes angen y PRN mwyach	
5	Mae'n arfer da cofnodi balans y PRNs ar ôl rhoi pob dos	Dylai PRN sy'n dal i gael ei ddefnyddio ac sydd â dyddiad cyfredol gael ei drosglwyddo o un mis i'r llall ac ni ddylid ei waredu er mwyn osgoi gwastraff
6	Cofnodi rhoi'r feddyginiaeth ar y MAR neu'r siartiau cyfatebol a'i nodi yng nghynllun gofal y preswlydd	Cynnal cofnodion manwl-gywir (gweler Adran 9 Cadw Cofnodion Meddyginiaeth) a darparu pwynt cyfeirio yn achos unrhyw ymholiadau ac osgoi dyblygu triniaeth

Aelodau'r Gweithgor gwreiddiol:

Enw	Teitl
Susan Murphy	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau (Gorllewin)
Eiriann Turner	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Val Bamber	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Hayley Jones	Nyrs Arbenigol Rheoli Meddyginiaethau
Sarah Felicello	Fferyllydd Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau
Sue Randles	Technegydd Fferylliaeth

Aelodau'r grŵp adolygu Rhagfyr 2016

Enw	Teitl
Alan Hughes	Fferyllydd Arweiniol Llywodraethu Meddyginiaethau - Cadeirydd
William Duffield	Fferyllydd Diogelwch, Diogelwch Cleifion
Chris Thomas	Nyrs Arbenigol, Rheoli Fferylliaeth a Meddyginiaethau
Katherine White	Nyrs Arbenigol, Rheoli Fferylliaeth a Meddyginiaethau
Jonathan Sutton	Gastroenterolegydd Ymgynghorol
Alison Cox	Fferyllydd Cymorth Gwybodaeth am Ragnodi